

Mark Hackett, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Emma Woollett, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Andrew Jarrett, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, CBS Castell-nedd
Port Talbot
Keri Warren, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, CBS Castell-nedd
Port Talbot
Andrew Thomas, Cyfarwyddwr Addysg, CBS Castell-nedd Port Talbot
Karen Jones, Prif Weithredwr, CBS Castell-nedd Port Talbot
Ali Davies, Prif Swyddog, Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth
Nic Davies, Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Cymru

Dyddiad: 16 Medi 2021

Annwyl Gydweithiwr,

Cyd-arolygiad o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Gwasanaeth Prawf Cymru, Heddlu De Cymru – Mehefin 2021

Rhwng 28 Mehefin a 2 Gorffennaf 2021, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub eu Mawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Estyn gyd-arolygiad o'r ymateb amlasiantaeth i gamdriniaeth ac esgeulustod yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd yr arolygiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o'r modd yr oedd gwasanaethau lleol yn ymateb i achosion o gamfanteisio ar blant.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu ein canfyddiadau am effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Cwmpas yr arolygiad

Adolygodd y cyd-arolygiad y canlynol:

- yr ymateb i achosion o gamfanteisio ar yr adeg y cânt eu nodi
- ansawdd ac effaith gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau
- amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt (drwy gynnal asesiad trylwyr o brofiadau'r plant hyn)
- y trefniadau ar gyfer arwain a rheoli'r gwaith hwn
- effeithiolrwydd trefniadau partneriaid diogelu amlasiantaethol mewn perthynas â'r gwaith hwn.

Rydym wedi ceisio defnyddio iaith syml i ddisgrifio canfyddiadau'r cyd-arolygiad. Crybwyllir nifer o dermau a ddisgrifir isod:

Term neu Ymadrodd	Diffiniad
ACEs	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
ACC	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
BCU	Uned Reoli Sylfaenol yr Heddlu

CAMHS	Gwasanaeth lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
Unigolyn sydd Wedi Bod mewn Gofal	Plant neu berson ifanc sydd naill ai'n derbyn gofal neu a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol (er enghraifft, person ifanc hŷn sydd wedi 'gadael gofal' yn 18 oed, plentyn sydd wedi dychwelyd at ei deulu genedigol, neu blentyn a gafodd ei fabwysiadu)
CAWNS	Hysbysiadau Rhybudd o Herwydio Plentyn
CCE	Camfanteisio'n Droseddol ar Blant
CLA	Plant sy'n Derbyn Gofal Plentyn neu berson ifanc sydd o dan ofal yr awdurdod lleol ar hyn o bryd
CPR	Y Gofrestr Amddiffyn Plant
CSE	Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
CSERQ	Holiadur Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
DTR	Mae'r <i>ddyletswydd</i> statudol i hysbysu'r awdurdod lleol yn golygu atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol y mae ganddynt, ochr yn ochr â'r heddlu, bwerau statudol i ymchwilio i gamdriniaeth neu esgeulustod a amheuir.
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
EAT	Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd
EWO	Swyddog Lles Addysg
ED	Adran Achosion Brys
FAST	Tîm Cymorth Family Action
ISHU	Uned lechyd Rhywiol Integredig
LBGTQ+	Lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar neu'n cwestiynu
LIO	Swyddog Deallusrwydd Lleol yr Heddlu
MIU	Uned Mân Anafiadau
MAPPA	Mae trefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd wedi'u dylunio i amddiffyn y cyhoedd, gan gynnwys unigolion sydd wedi dioddef troseddau yn y gorffennol, rhag niwed gan droseddwr rhywiol a threisgar
NAIRA	Dim Risg Uniongyrchol Amlwg – Absennol. System newydd gan yr heddlu ar gyfer graddio'r risg yn achos plant sydd wedi mynd ar goll
NEET	Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
NRM	Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol
PCC	Comisiynydd Heddlu a Throseddu
PCSO	Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
PPN	Hysbysiad Amddiffyn y Cyhoedd

PSC	Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yr Heddlu
PPU	Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu
RSE	Addysg rhyw a pherthnasoedd
SPOC	Partneriaeth o dan arweiniad yr Awdurdod Lleol sy'n cynnig Pwynt Cyswllt Unigol
HDC	Heddlu De Cymru
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
THRIVE	Adnodd asesu risg yr heddlu a ddefnyddir i bennu lefel blaenoriaeth i ddigwyddiad
WGCADA	Cyngor Gorllewin Morgannwg ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau
YJEIS	Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar y cyfeirir ato fel y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS)
YOS	Y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid (y bartneriaeth) wedi arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) ac mae'n anelu at sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant a diogelwch plant y mae angen gofal a chymorth arnynt. Ategwyd eu gwaith gan ddull gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â'r trefniadau diogelu rhanbarthol lle bu rheolwyr strategol yn rhagweithiol wrth weithredu ar feysydd allweddol.

Nodwyd gennym fod strwythurau a chydberthnasau addas ar waith i hwyluso trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth lle roedd risg y byddai rhywun yn camfanteisio ar blentyn. Roedd swyddogaethau statudol mewn perthynas â hybu diogelwch a llesiant yn cael eu cyflawni. Roedd y partneriaid, a oedd yn cynnwys darparwyr statudol a darparwyr trydydd sector fel St. Giles a Barnardo's, yn gweithio'n unol ag ethos a rennir o ddiogelu plant a phobl ifanc ar lefelau gwahanol o fod yn agored i niwed. Roedd hyn yn amlwg gan fod yr arweinwyr yn y sefydliadau hyn yn cyfleu gweledigaeth glir a rennir. Mae'r rheolwyr wedi gweithio mewn ffordd bwrpasol ym mhob rhan o'r bartneriaeth er mwyn helpu i nodi achosion o gamfanteisio a mynd i'r afael â nhw. Nodwyd diwylliant o feithrin cydberthnasau â'r bobl sydd wrth wraidd arferion ym mhob rhan o'r sefydliadau.

Ceir dealltwriaeth gynyddol ym mhob rhan o'r bartneriaeth o gamfanteisio troseddol a'r rhyng-gydberthnasau cymhleth rhwng camfanteisio o'r fath a mathau eraill o gamfanteisio; yn ogystal ag ymateb diogelu cyd-destunol sy'n cynnig dimensiwn cymharol newydd i'r broses o reoli niwed y tu allan i'r teulu. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod arbenigedd ynghylch camfanteisio a'r cysyniad diogelu cyd-destunol yn rhan annatod o ymarfer a sicrhau dealltwriaeth lawn ar draws grwpiau proffesiynol.

Cafwyd tystiolaeth o drefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth lle roedd plentyn yn wynebu risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blentyn; roedd systemau datblygedig i helpu ymarferwyr ar draws sefydliadau, i rannu gwybodaeth ac i reoli risg er mwyn sicrhau bod plant mor ddiogel â phosibl.

Er bod cyfarfodydd camfanteisio amlasiantaeth yn cynnig fforwm da ar gyfer rhannu gwybodaeth, mae angen defnyddio'r cyfarfodydd hyn mewn ffordd fwy cyson i lywio ac

addasu cynlluniau diogelwch plant ac i wella'r broses o gydgyhyrchu'r cynlluniau hyn gyda'r bobl ifanc. Er bod angen gwelliannau, roedd y gwaith a adolygwyd yn adlewyrchu ymrwymiad, dyfalbarhad a hyblygrwydd y dulliau a ddefnyddir gan y staff i annog y bobl ifanc i ymgysylltu.

Mae golwg clir gan arweinwyr y gwasanaethau plant o arferion rheng flaen, gyda chynlluniau sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau mewn modd arloesol a datblygol mewn llawer o feysydd. Soniodd y staff wrthym am yr arweinwyr cefnogol iawn gan ddweud bod ganddynt barch mawr tuag atynt. Roedd diwylliant o wella a chefnogi ei gilydd a oedd yn cael ei ysgogi gan yr arweinwyr ym mhob rhan o'r sefydliad. Llwyddwyd i gynnal hyn yn ystod y pandemig. Roedd y staff yn flaengar ac yn ystyried gwaith ymchwil ac arferion gorau er mwyn llywio eu gwaith. Nid yw'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu model risg penodol. Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o ddogfennau sylfaenol a fyddai'n helpu i ddarparu cysondeb a fframwaith cyffredin ar gyfer deall risg.

Mae gan yr awdurdod lleol ddull cadarnhaol o reoli risg lle y gwrandewir yn amlwg ar safbwyntiau plant, pobl ifanc a theuluoedd ac y caiff y safbwyntiau hynny eu deall. Roedd rhoi cymorth iddynt gartref ac yn eu cymunedau yn rhan hanfodol o'r broses o ddarparu gofal a chymorth i blant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd yr ymarferwyr yn adnabod y plant a'r teuluoedd roeddent yn gweithio gyda nhw yn dda ac wedi sicrhau bod cydberthnasau cadarnhaol yn cael eu meithrin.

Nodwyd gennym fod yr awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i lunio ei wasanaethau yng nghyd-destun y Ddeddf. Roedd swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yr awdurdod lleol yn cael ei darparu drwy wasanaeth Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC) a oedd yn darparu pwynt mynediad penodol i blant ag anghenion cymwys ac ar gyfer ymyriadau ataliol. Roedd llwybrau clir wedi'u sefydlu i hwyluso ymyrraeth gynnar, help i deuluoedd ac eglurder ynghylch y ddarpariaeth atal, ym maes cyfiawnder ieuencid a gofal cymdeithasol.

Er bod y pandemig wedi tarfu ar y broses, roedd cymorth partneriaeth strategol mewn perthynas â rheoli risg yn amlwg drwy'r buddsoddiad a wnaed mewn hyfforddiant perthnasol (ar y cyd) i staff ym mhob rhan o'r bartneriaeth; llwyddwyd i barhau i ddarparu rhywfaint o hyfforddiant i asiantaethau unigol a hyfforddiant ar-lein yn ystod y pandemig. Mae hyfforddiant diogelu cadarn a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol wedi rhoi cymorth effeithiol i ysgolion wrth nodi arwyddion cynnar o gamfanteisio, ac wedi gwella'r hyfforddiant a gynigir i staff ysgolion sy'n addysgu ac yn cefnogi pobl ifanc hynod heriol y gwyddys eu bod yn wynebu risg.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (YOS) wedi dechrau ar daith wella yn dilyn canlyniad gwael mewn arolygiad a gynhaliwyd o drefniadau'r consortiwm blaenorol yn 2018. Mae'r gwasanaeth bellach wedi'i integreiddio'n llwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae ganddo nifer o gynlluniau ar waith i ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn flaenorol. Mae'r ymarfer yn gwella o ganlyniad. Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a'r heddlu ddealltwriaeth a rennir o bwysigrwydd osgoi canlyniadau cyfiawnder troseddol ffurfiol i blant sy'n agored i niwed lle y bo'n briodol.

Cafwyd newidiadau sylweddol yn y sector prawf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd wythnos yr arolygiad yn cyd-daro ag adeg lansio'r gwasanaeth prawf newydd yn deillio o uno'r cwmnïau adsefydlu cymunedol yn y sector preifat a'r gwasanaeth prawf o'r sector cyhoeddus. Rhoddwyd llawer o'r newidiadau hyn ar waith 18 mis yn gynnar yng Nghymru

ac mae'r gwasanaeth prawf unedig newydd gam ar y blaen yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae maint a graddfa'r newid hwn yn eithriadol. Mae angen i'r bartneriaeth ddeall goblygiadau'r newidiadau hyn a sicrhau ei hun y caiff y systemau a'r prosesau a ddyluniwyd i ddiogelu plant eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth, presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd partneriaeth gweithredol a strategol a mynediad i sesiynau briffio a hyfforddiant ar flaenoriaethau diogelu plant lleol, gan gynnwys camfanteisio.

Roedd uwch-reolwyr yn Uned Cyflawni Gwasanaeth Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn benderfynol o sicrhau llwyddiant y strwythurau prawf newydd. Roeddent yn cydnabod yr heriau y byddent yn eu hwynebu. Mae'r pandemig yn ychwanegu haen o gymhlethdod ac yn golygu na all y staff ddatblygu rhwydweithiau cyfoedion yn y sefydliad newydd yn y swyddfa fel y byddai'n digwydd fel arfer. Ceir manteision lleol. Roedd y sefydliadau sector preifat a sector cyhoeddus wedi'u cydleoli yn flaenrol ac felly roedd rhai cydberthnasau gwaith eisoes wedi'u meithrin rhwng staff yn y ddwy asiantaeth dan sylw.

Dangosodd Heddlu De Cymru ymrwymiad clir i amddiffyn plant ac i fynd i'r afael ag achosion o gamfanteisio ar blant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd tystiolaeth o hyn yn y blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Heddlu a Throseddau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Chynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl. Roedd yr heddlu hefyd yn rhagweithiol wrth lunio ac adolygu cynlluniau strategol ac asesiadau eraill yn unol â bygythiadau newidiol neu fygythiadau a oedd yn dod i'r amlwg. Roedd yr enghreifftiau gorau o'r heddlu yn llwyddo i ddiogelu plant sy'n agored i niwed yn cynnwys camau gweithredu prydlon i nodi'r rheini sy'n wynebu risg a threfniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ar draws timau'r heddlu a phartneriaid.

Mae Heddlu De Cymru wedi gweithredu rhaglen o hyfforddiant er mwyn gwella sgiliau ei staff mewn materion sy'n ymwneud â phlant sy'n agored i niwed. Mae'r rhaglen hon wedi cynnwys hyfforddiant eang ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a dull gweithredu ar sail trawma o dan y Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd (EAT). Darparwyd hyfforddiant mwy penodol i swyddogion derbyn galwadau, swyddogion y ddalfa a thîm unigolion coll y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd staff ysgolion yn deall ei bod yn hanfodol i bob rhanddeiliad nodi achosion, eu hasesu, cyfathrebu ac ymyrryd yn gynnar. Roeddent yn cydnabod bygythiad parhaus camfanteisio ar blant a bod gwaith amddiffyn a diogelu plant effeithiol yn gofyn am weithdrefnau cadarn, cydweithrediad da rhwng asiantaethau a gweithlu sy'n gymwys ac yn hyderus wrth ymateb i sefyllfaoedd. Roedd gwaith agos yn mynd rhagddo ag asiantaethau eraill ag ethos a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. Roedd staff ysgolion yn canolbwyntio eu gwaith ar gyd-destun penodol y plentyn a'i deulu ac yn cydnabod anghenion plant ar eu taith tuag at fod yn oedolion, gydag ymrwymiad i sicrhau darpariaeth o ansawdd er mwyn diwallu'r anghenion hyn.

Mae'r awdurdod lleol yn hybu lefel uchel o drefniadau gweithio rhyng-asiantaeth mewn ysgolion. Roedd tystiolaeth o gydberthnasau gweithio agos ar draws gwasanaethau wrth ddiwallu anghenion pobl ifanc hynod gymhleth a'u teuluoedd. Roedd swyddogion addysg a staff ysgolion yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn cyfarfodydd diogelu amlasiantaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn hybu diwylliant cadarn o gynwysoldeb. Mae ysgolion yn cael cymorth ac arweiniad gan dimau o bob rhan o'r gyfarwyddiaeth.

Nodwyd gennym fod gan dimau arwain diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) oruchwyliaeth dros wasanaethau gofal iechyd rheng flaen, a bod prosesau da ar waith ar gyfer cyflwyno adroddiadau i grwpiau a phwyllgorau llywodraethu priodol. Gwelsom enghreifftiau hefyd o staff yn disgrifio trefniadau ymgysylltu da ag arweinwyr diogelu ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Roedd awydd i wella'n barhaus wedi'i lywio gan arweinwyr diogelu ar lefel weithredol ac ar lefel gorfforaethol.

Roedd gan staff gofal iechyd a meddygon teulu wybodaeth ac ymwybyddiaeth dda o drefniadau diogelu. Roedd cyfathrebu da rhwng gwahanol ddisgyblaethau iechyd, er bod rhai aelodau o staff wedi nodi anghysondebau. Gwelwyd prosesau diogelu cadarn yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Mân Anafiadau, ac roedd datblygiadau ymarfer arloesol a diwylliant dysgu cadarn i'w gweld. Roedd prosesau ar waith ar gyfer nodi pan oedd plentyn a oedd yn mynychu'r naill leoliad neu'r llall yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Llesiant

Cryfderau

Roedd pob rhan o'r bartneriaeth yn deall y prosesau diogelu. Roedd lefelau presenoldeb partneriaid mewn cyfarfodydd diogelu yn dda, roedd y cyfarfodydd yn amserol ac yn gymesur, ac roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu. Roedd risgiau ac anghenion yn cael eu dadansoddi ac roedd camau gweithredu amlasiantaeth yn cael eu llunio er mwyn diogelu a rheoli risg.

Gwelsom gyfathrebu dyddiol ym mhob rhan o'r bartneriaeth drwy systemau ffurfiol ac anffurfiol ac roedd prosesau uwchgyfeirio yn cael eu rhoi ar waith lle y bo'n briodol. Roedd amrywiol enghreifftiau o ddull gweithredu rhagweithiol er mwyn sicrhau bod asiantaethau yn deall trothwyon. Er enghraifft, roedd y cyfarfodydd adolygu cyfoedion amlasiantaeth yn cynnig cyfle i drafod plant y nodwyd materion gweithredol mewn perthynas â nhw.

Mae gan ymarferwyr y gwasanaethau plant ddealltwriaeth glir o weithdrefnau amddiffyn plant. Roedd y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau cychwynnol a welwyd yn amserol ac roedd tystiolaeth bod y rheolwyr yn ei goruchwyllo.

Pan fyddai'r Pwynt Cyswllt Unigol yn derbyn adroddiad Dyletswydd i Adrodd, roedd eglurder ynghylch arwyddion o niwed sylweddol, ac roedd camau cychwynnol prydlon a chymesur yn cael eu cymryd i amddiffyn plant. Roedd tystiolaeth glir bod y staff yn adnabod arwyddion o gamfanteisio a'r risgiau cysylltiedig. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn dangos dealltwriaeth dda o effaith cam-drin domestig ar blant ac roedd tystiolaeth bod gwybodaeth am achosion o gam-drin domestig yn cael ei rhannu.

Gwelsom rai enghreifftiau o'r heddlu yn lliniaru risg ac yn atal troseddwyd mewn perthynas â phlant a oedd yn wynebu risg o gamfanteisio rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth frifio am blant a oedd yn wynebu risg i swyddogion rheng flaen yr heddlu, cynnal patrolau mewn lleoliadau problemus a phlisma amodau mechnïaeth ac amodau cyrffw yn drylwyr er mwyn amddiffyn plant. Roedd yr heddlu yn defnyddio Hysbysiadau Rhybudd o Herwydio Plentyn (CAWN) er mwyn cyfyngu ar fynediad troseddwyd i blant a darparu trefniadau diogelu pellach.

Tynnodd yr adolygiad o achosion sylw at sawl ymchwiliad o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Roedd ansawdd yr ymchwiliadau hyn yn amrywio, ond lle roedd ymchwiliad yn cael ei gynnal gan dditectifs, roedd yr ymateb yn amserol ac roedd yr ymchwiliad yn gynhwysfawr, gan gynnig y cyfle gorau i nodi troseddwr a'u herlid. Mewn ymchwiliadau eraill, gwelsom nad oedd y risg ehangach i blant eraill neu gan droseddwr bob amser yn cael ei nodi ac nad oedd camau bob amser yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r risg honno.

Gwelsom fod swyddogion ateb galwadau'r heddlu yn nodi bod plant yn agored i niwed a'u bod yn cwblhau asesiadau risg THRIVE er mwyn helpu i flaenoriaethu galwadau yr oedd angen gwasanaeth arnynt. Mae'r swyddogion hyn yn gallu gweld y wybodaeth ddiweddaraf ar Niche a Control Works (cofnodion galwadau) ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys marcwyr ar gyfer plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol neu y mae ganddynt gynllun amddiffyn gofal a chymorth. Yn ogystal â'u helpu i wneud penderfyniadau, mae hyn hefyd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i staff rheng flaen i gefnogi eu hymateb.

Lle roedd plant wedi cael eu categorio fel plant sydd ar goll o'u cartref neu o wasanaeth gofal, roedd trefniadau goruchwyllo clir ar waith, o fewn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Uned Reoli Sylfaenol (BCU). Yn ogystal, roedd y cofnodion yn nodi asesiadau risg priodol, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd swyddogion yn rhagweithiol wrth geisio dod o hyd i'r plentyn. Nid felly ar gyfer plant a oedd wedi'u categorio fel 'Dim Risg Uniongyrchol Amlwg – Absennol' (NAIRA).

Pan fydd plentyn wedi'i dderbyn i'r protocol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, gwelsom dystiolaeth bod prif gofnod digwyddiad yr heddlu yn cael ei ddefnyddio i gofnodi canlyniadau'r holl gyfarfodydd amlasiantaeth. Roedd lefelau presenoldeb staff mewn cyfarfodydd strategaeth a chyfarfodydd amlasiantaeth yn dda, ac roedd y cofnodion yn darparu disgrifiadau manwl o'r wybodaeth a rannwyd gan bartneriaid a'r cynllun diogelu y cytunwyd arno. Roedd y cofnodion hyn yn cael eu hychwanegu at Niche, sy'n sicrhau y gall swyddogion a staff gael gafael yn gyflym ar wybodaeth a fydd yn eu helpu i weithredu a gwneud penderfyniadau.

Roedd ansawdd y cyfweiliadau dychwelyd gartref yn dda. Roeddent yn cael eu rhannu â'r asiantaethau partner mewn ffordd wedi'i thargedu, gan roi gwybodaeth newydd i'r gweithwyr proffesiynol am brofiad y plentyn. Mae gweithiwr Barnardo's yn darparu cyswllt effeithiol rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, gan alluogi gweithwyr i nodi ffyrdd o leihau achosion o unigolion coll, anghenion sy'n dod i'r amlwg ac i addasu cynlluniau ar gyfer rheoli risgiau. Yn hanfodol, mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi llais cryfach i blant.

Mae gan dîm unigolion coll yr heddlu gysylltiadau â swyddogion deallusrwydd. Maent yn sicrhau y caiff gwybodaeth a deallusrwydd eu nodi o'r cyfweiliadau dychwelyd gartref, ac y caiff unigolion cyswllt a lleoliadau eu diweddarau ar gofnodion ac y caiff cofnodion deallusrwydd eu creu lle y bo'n briodol. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio gwybodaeth i atal unigolion rhag mynd ar goll yn y dyfodol ac i ddod o hyd i'r plentyn os bydd hynny'n digwydd.

Gwelsom ddefnydd cadarnhaol o adnodd sgrinio'r Holiadur Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan Nyrsys Plant sy'n Derbyng Gofal, staff yr adran achosion brys a'r uned mân anafiadau, er mwyn helpu i nodi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gynnar.

Roedd atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud lle y bo angen. Roedd trefniadau ar waith i gadarnhau a oedd unrhyw blentyn a oedd yn mynychu'r adran achosion brys wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ac roedd y gofrestr honno ar gael i staff yr adran achosion brys a'r uned mân anafiadau edrych arni. Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn yr adran achosion brys yn ymwybodol o'r gofrestr amddiffyn plant a soniwyd wrthym am flwch ticio ar y cerdyn brysbenneu. Roedd hyn yn golygu pe byddai angen y gallai'r staff rannu gwybodaeth allweddol â phartneriaid amlasiantaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion lle roedd angen gwneud hynny, gwnaethom nodi trefniadau ar gyfer nodi'r anafiadau ar fap corff yn yr uned mân anafiadau, ond nid oedd trefniadau cyson i'w gweld yn yr adran achosion brys.

Roedd meddygon teulu a staff gofal iechyd yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'u chyfrifoldeb proffesiynol unigol ac fel tîm tuag at ddiogelu ac amddiffyn plant sy'n agored i niwed. Nodwyd systemau codio priodol yng nghofnodion meddygon teulu. Roedd y system a welsom yn atgoffa'r ymarferwyr i nodi a oedd gan blentyn gynllun amddiffyn gofal a chymorth, a oedd yn blentyn mewn angen neu'n blentyn sy'n derbyn gofal. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth allweddol ar gael i bob ymarferydd cyn cynnal ymgynghoriadau â rhieni a phlant ac ar ôl gwneud hynny.

Mae gan y Panel Risg Cyd-destunol brosesau cadarn ar waith i sicrhau ansawdd ymarfer ac i nodi cymorth pellach lle y bo'n briodol. Mae'r fforwm hwn yn cynnig buddiannau ar draws y bartneriaeth ond yn benodol o safbwynt addysg, mae'n cynnig cyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth er mwyn gweithredu mewn ffordd gydlynus wrth nodi a rheoli anghenion disgyblion.

Mae gan y gwasanaeth ieuencid gydberthnasau gweithio cadarn â Gyrfa Cymru er mwyn helpu dysgwyr ôl-16. Mae'r lefelau cymorth yn amrywio ar draws haenau, er enghraifft yn Haen 1, mae'r gwasanaeth yn ymyrryd yn achos disgyblion anodd eu cyrraedd sy'n hynod agored i niwed ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn gweithio'n dda â thîm plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol i flaenoriaethu cymorth i blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r cymorth hwn sydd wedi'i dargedu, ynghyd â'r cymorth a ddarperir gan Cynnydd, yn effeithiol wrth ddarparu cymorth ychwanegol i'r bobl ifanc hynny y mae risg na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at y nifer cymharol isel o bobl ifanc y nodir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y sir.

Roedd y gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol yn ymrwymedig i gefnogi pobl ifanc mewn ysgolion a bu'n gweithredu mewn ffordd ragweithiol drwy gydol y pandemig ac wrth i ddisgyblion ddychwelyd i addysg llawn amser. Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi cynyddu wrth i ddisgyblion ddychwelyd. Mae ysgolion wedi cynyddu eu cymorth mewn perthynas ag iechyd meddwl disgyblion drwy ehangu eu gallu i ddarparu ymyriadau gan ddefnyddio mentrau fel Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol a gwella gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol. Mae hyn wedi helpu i leihau'r risg y bydd iechyd meddwl disgyblion yn dirywio o ganlyniad i oedi wrth gael cymorth gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Gall disgyblion mor ifanc â phump oed bellach ddefnyddio gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu rhwydwaith cymorth llwyddiannus ym mhob ysgol uwchradd a'r coleg a ddarperir gan wasanaeth Cynnydd. Soniodd yr ysgolion a staff gwaith

cymdeithasol yn gyson am ansawdd uchel y cymorth, y cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan staff Cynnydd wrth iddynt weithio gyda disgyblion a nodwyd. Fel rhan o ganlyniadau Panel Ymyrraeth Gynnar yr awdurdod lleol, gellir rhoi cyfarwyddyd i weithwyr Cynnydd gefnogi disgyblion penodol sy'n ymylu ar fod angen cynllun gofal a chymorth statudol.

Cafwyd canlyniadau cadarn mewn arolygiadau ysgolion o ran gofal, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys diogelu. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cafodd pob ysgol ddyfarniad da neu well ar gyfer maes arolygu 4 Estyn (Gofal, cymorth ac arweiniad gan gynnwys diogelu). Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae gan ysgolion uwchradd raglenni bugeiliol cadarn ar gyfer disgyblion sy'n wynebu risg o achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Dywedodd athrawon ysgolion uwchradd fod y gwaith hwn wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'u bod yn hyderus bod eu disgyblion yn cael y wybodaeth a'r sgiliau cywir i'w helpu i ymdrin â heriau yn eu cymuned.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn rhannu gwybodaeth yn briodol pan fyddai disgybl sy'n agored i niwed yn symud o un ysgol i ysgol arall. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio llwyfan ar-lein at y diben hwn, ond roedd pryderon nad yw lleiafrif o ysgolion bob amser yn rhannu gwybodaeth bwysig pan fydd disgybl sy'n agored i niwed yn trosglwyddo. Cydnabu ysgolion waith y tîm Llesiant yn ystod y cyfnod trosglwyddo ond roedd ganddynt bryderon nad oedd gan y gwasanaeth o bosibl y gallu a'r adnoddau i gefnogi disgyblion mewn ffordd gyson.

Roedd ansawdd y wybodaeth a gofnodwyd ar ffurflenni dyletswydd i adrodd pwyntiau cyswllt unigol a gyflwynwyd gan ysgolion yn amrywiol, ond ar y cyfan, roeddent yn rhoi digon o wybodaeth i staff pwyntiau cyswllt cyntaf wneud penderfyniad ar y camau nesaf. Mae ansawdd yr atgyfeiriadau gan ysgolion wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i hyfforddiant a'r fformat cyffredin a gaiff ei ddefnyddio bellach ar gyfer pob dyletswydd i adrodd. Mae ysgolion yn fwy medrus wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd.

Yn unol â'i pholisi amddiffyn plant, roedd gan bron i bob ysgol systemau ar waith i'r staff atgyfeirio pryderon at swyddogion diogelu dynodedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd swyddogion yr ysgol yn sicrhau bod ffurflenni dyletswydd i adrodd yn cael eu prosesu mewn modd amserol. Ym mhob ysgol, fwy neu lai, roedd y staff yn adnabod arwyddion y gallai rhywun fod yn camfanteisio'n droseddol neu'n camfanteisio'n rhywiol ar ddisgybl.

Mae Swyddogion Lles Addysg yn gweithio gyda chlystyrau o ysgolion cynradd ac wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau cyfraddau absenoldeb parhaus. Mae'r awdurdod lleol yn cadw data ar bresenoldeb disgyblion sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant; mae'r cyfraddau yn amrywio o 0% i fwy na 95%. Mae mynediad at ddata sy'n gysylltiedig ag absenoldeb o'r ysgol yn bwysig o ystyried y cyswllt rhwng y ffaith nad yw disgyblion yn yr ysgol a risg uwch y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau leuenctid fynediad at amrywiaeth o adnoddau a staff arbenigol a gall ymateb i anghenion cymhleth plant sy'n wynebu risg o droseddu. Mae'r staff yn defnyddio ymyriadau therapiwtig a chyfyngol, er enghraifft cyrffwiau a pharthau dan waharddiad. Nododd llawer o'r bobl ifanc fod mesurau cyfyngol wedi helpu i osgoi sefyllfaoedd risg uchel.

Mae gan gydweithwyr barch tuag at y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid ac mae'n ysgogi arloesedd yn eu hymarfer nhw eu hunain a gyda'u partneriaid. Mae wedi mabwysiadu egwyddorion diogelu cyd-destunol ac mae ei gyfarfodydd proffilio risg gymunedol yn enghraifft o'r dull gweithredu hwn. Lle y bo'n nodi bod ardal benodol yn cyflwyno risgiau i blant, fel parc cyhoeddus lle mae delwyr cyffuriau yn gweithredu, mae'n gweithio gyda phartneriaid i ystyried cyfleoedd i ymyrryd. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac nid yw pob asiantaeth berthnasol yn cymryd rhan eto. Mae wedi datblygu dealltwriaeth o'r farchnad gyffuriau leol a sut y gall plant ddod yn rhan o'r farchnad honno.

Meysydd i'w Datblygu

Mae diogelu cyd-destunol yn gysyniad allweddol sy'n greiddiol i ddull partneriaeth Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas â diogelu. Fodd bynnag, nid oedd staff y gwasanaeth prawf y gwnaethom gyfarfod â nhw yn ymwybodol o'r term. Roedd angen atgyfnerthu'r agenda diogelu cyd-destunol ymhellach hefyd ym mhob ysgol. Mae angen sicrhau bod staff ym mhob asiantaeth yn deall y rhyng-gysylltiadau mewn perthynas â diogelu cyd-destunol (risg y tu allan i'r teulu) a'r rhan y mae gofawyr a rhieni yn ei chwarae wrth hybu llesiant a diogelwch.

Er bod yr ymatebion yn amserol ar y cyfan, roedd ansawdd asesiadau'r gwasanaethau plant yn anghyson. Roedd fformat dogfennaeth yn ddefnyddiol ond roedd angen ffocws mwy amlwg ar gryfderau a chanlyniadau ac nid oedd llais y plentyn bob amser yn cael ei gofnodi'n ddigon da. Er bod y rhan fwyaf o asesiadau yn nodi risgiau, roedd angen gwaith dadansoddi mwy trylwyr, gan gynnwys yr effaith ar y plentyn, er mwyn llywio gwaith cynllunio yn effeithiol.

Roedd ymrwymiad i ddefnyddio cynlluniau diogelwch a oedd yn nodi rhwydweithiau cymorth y plentyn a'r teuluoedd eu hunain. Mae angen diffinio'r gydberthynas rhwng hyn a'r cynlluniau gofal a chymorth yn gliriach. Mae angen rhoi sylw i'r broses o ddatblygu a gweithredu cynlluniau diogelwch ac mae angen mwy o eglurder wrth sicrhau eu bod yn ddogfennau â phwyslais penodol er mwyn cefnogi'r trefniadau diogelu gofal a chymorth. Mae angen hefyd i bartneriaid rannu yn y cyfrifoldeb o roi cynlluniau diogelwch ar waith. Yn yr un modd, lle roedd cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal â chynrychiolwyr priodol o asiantaethau, roedd ansawdd y cofnodion yn anghyson ac yn aml nid oeddent yn ddigon manwl nac yn cynnwys camau gweithredu clir.

Roedd pob aelod o'r staff ym mhob asiantaeth yn frwdfrydig ynghylch y cysyniad o ddatblygu diogelu cyd-destunol. Nodwyd bod nifer o lwybrau cymhleth yn cael eu datblygu er mwyn ymateb i'r amrywiaeth o risgiau a nodwyd. Gallai hyn greu dryswch i'r partneriaid y mae angen iddynt sicrhau bod eu gwaith cynllunio yn gyson ac yn glir o ran y rhyng-gydberthnasau rhwng diogelu cyd-destunol a phrosesau amddiffyn plant eraill. Roedd y ffordd yr oedd gwahanol asiantaethau yn ymdrin â'r risgiau yr oedd eraill, gan gynnwys brodyr a chworydd, a oedd yn gysylltiedig â'r un digwyddiad neu ar yr ymylon, yn eu hwynebu ac anghenion diogelu'r unigolion hynny, yn amrywio.

Nid oedd rhai partneriaid yn ddigon cyfarwydd â'r Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ac arwyddocâd y broses hon o ran rheoli'r risg a diogelu pobl ifanc y camfanteisiwyd yn droseddol arnynt. Roedd rhai asiantaethau hefyd yn tanamcangyfrif y risg ddifrifol y mae rhai o'r bobl ifanc yn ei pheri i eraill. Ar gyfer rhai

sefyllfaoedd, gwelsom sut y gallai MAPPA fod wedi dod â'r safbwyntiau hyn ynghyd o fewn dull gweithredu amlasiantaeth credadwy er mwyn rheoli risg a diogelu person ifanc. I'r gwrthwyneb, nodwyd gennym hefyd fod rhai pobl ifanc wedi dod yn destun gweithdrefnau MAPPA lle y byddai wedi bod yn well rheoli'r risgiau cyfunol yr oeddent yn eu hwynebu a'r risg yr oeddent yn ei pheri i eraill drwy fforwm amgen.

Yn y nifer bach o achosion prawf a adolygwyd, nid oedd digon o chwilfrydedd proffesiynol, gan effeithio ar y broses o asesu a rheoli risgiau. Roedd gwybodaeth ar gael gan asiantaethau partner fel y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a'r gwasanaethau cymdeithasol a fyddai wedi helpu i gynnal asesiadau, ond nid oedd yr ymarferydd prawf bob amser yn gofyn am y wybodaeth hon.

Nid oedd gan staff yn yr Uned Iechyd Rhywiol Integredig (ISHU) fynediad cyson at wybodaeth ar y gofrestr amddiffyn plant ac roeddent yn dibynnu ar hunanddatgeliadau gan blant neu aelodau'r teulu. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff fethu cyfleoedd i nodi ffactorau risg a gofyn am ragor o wybodaeth gan asiantaethau eraill pe byddai angen. Dylai BIPBA adolygu'r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod yr Uned Iechyd Rhywiol Integredig yn ymwybodol o sut i gael gafael ar y wybodaeth bwysig hon mewn modd amserol.

Mewn rhai achosion, roedd swyddogion yr heddlu yn defnyddio iaith amhriodol i ddisgrifio plant a oedd yn wynebu risg. Roedd y sylwadau yn cynnwys 'mae'n ymddangos yn strydgall' ac 'nid yw'n ymddygiad anarferol gan ei fod yn mynd ar goll bob nos'. Mae'r sylwadau hyn yn dangos diffyg ymwybyddiaeth gan rai swyddogion o'r risgiau y mae'r plant hyn yn eu hwynebu. Dylid gwneud mwy i sicrhau bod staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol.

Mae'r heddlu wedi cyflwyno system graddio risg newydd ar gyfer plant coll, sef NAIRA. Gellir ei defnyddio ar gyfer plant rhwng 14 ac 17 oed. Caiff achosion NAIRA eu rheoli gan dîm unigolion coll newydd sy'n rhan o'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylai'r tîm hwn gadarnhau bod yr achos yn briodol i gael ei reoli fel achos NAIRA a chysylltu â'r unigolyn sydd wedi rhoi gwybod am yr achos er mwyn trafod pa gamau y dylent eu cymryd i geisio dod o hyd i'r plentyn. Gellir defnyddio categori NAIRA am hyd at chwech awr (neu tan 3am pan fydd y tîm yn gorffen gweithio). Bryd hynny, caiff y digwyddiad ei uwchgyfeirio i risg ganolig. Mewn rhai achosion y gwnaethom edrych arnynt, roedd plant a oedd yn wynebu risg sylweddol wedi cael eu nodi fel plant a oedd yn addas ar gyfer NAIRA er gwaethaf y ffaith bod marcwyr rhybuddio clir, gwybodaeth gredadwy a gwybodaeth a chynlluniau amlasiantaeth wedi cael eu hystyried yn ystod y broses categoreiddio risg. Yn ein barn ni, wrth ddefnyddio polisi NAIRA ar gyfer y plant hyn, nid ystyriwyd yn llawn y risgiau cyd-destunol y maent yn eu hwynebu, ac yn hytrach, canolbwyntiwyd gormod ar amgylchiadau'r sefyllfa ar y pryd pan aeth y plentyn ar goll. O ganlyniad, roedd yn bosibl felly bod y risgiau a gaiff eu cydnabod yn helaeth ym mhob rhan o'r bartneriaeth wedi parhau heb eu lliniaru na'u rheoli.

Ar y cyfan, roedd ffurflenni Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd (PPN) yn cael eu cyflwyno'n brydlon i'r SPOC. Roedd ansawdd y wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi ar y ffurflenni hyn yn amrywiol ac yn aml, nid oedd canlyniad yr atgyfeiriad yn cael ei gofnodi. Nid oedd y wybodaeth gyd-destunol berthnasol na manylion y plant eraill a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad yn cael eu cofnodi'n gyson ac nid oedd y risg ehangach bob amser yn cael ei hystyried. O ganlyniad, ni fanteisiwyd bob tro ar gyfleoedd i ymgysylltu, diogelu, meithrin

cydberthnasau ac ymyrryd. Yn y rhan fwyaf o achosion y gwnaethom edrych arnynt, roedd enghreifftiau lle na chafodd Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd eu cyflwyno a'u rhannu â phartneriaid, gan gynnwys y rheini a oedd yn destun NAIRA, ar goll, troseddau lefel isel, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a stopio a chwilio. O ganlyniad, ni all y partneriaid wneud penderfyniadau effeithiol yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael gan yr heddlu ar gyfer plentyn.

Mewn achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant, prin oedd y dystiolaeth a welsom fod tactegau ymyrryd cydgysylltiedig yr heddlu yn cael eu defnyddio fel mater o drefn i amddiffyn plant. Roedd rhai cyfeiriadau at baratoi briffiadau ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o bennu tasgau a chydgyssylltu achosion yn ffurfiol er mwyn amharu ar droseddwyr a chasglu gwybodaeth. Yn ogystal, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod cynlluniau ymateb, sbarduno ac amharu yn cael eu defnyddio i helpu staff rheng flaen i nodi unigolion a lleoliadau ac i roi ffocws i'w hymdrechion i ddod o hyd i blant, ymgysylltu â nhw a'u diogelu, yn ogystal â chasglu gwybodaeth werthfawr.

Pobl

Cryfderau

Roedd ymarferwyr ym mhob rhan o'r bartneriaeth yn gwneud ymdrechion sylweddol i ymgysylltu â phlant. Er enghraifft, nododd ein hadolygiad sut roedd swyddogion yr heddlu yn ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd ac yn gofyn am eu barn, eu sylwadau a'u pryderon yn ystod ymweliadau a chyfweliadau atal. Roedd cofnodion camfanteisio'n rhywiol ar blant yn adlewyrchu ymrwymiad, dyfalbarhad a hyblygrwydd y dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan y staff er mwyn annog y bobl ifanc i ymgysylltu.

Yn y gwasanaethau plant, mae cysylltiadau agos rhwng y timau a'r swyddog cyfranogi ac ymgysylltu, ac mae gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sut y gall gwaith papur gofnodi llais y plentyn yn well ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn ystod y pandemig, arweiniodd y swyddog cyfranogi waith i ddatblygu llwyfan digidol er mwyn cefnogi llesiant pobl ifanc ac ymdrin ag unigrwydd.

Gwelsom fod Cynnig Rhagweithiol ar waith i'r rheini a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg. Roedd ar gael ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac fel rhan o'r gwasanaethau addysgol. Roedd siaradwyr Cymraeg hefyd ar gael yn y SPOC. Mewn perthynas â'r gwasanaethau iechyd, dywedwyd wrthym fod cynnig rhagweithiol ar gael i'r rheini a oedd yn dymuno siarad Cymraeg, ac roedd yn amlwg ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd o wasanaethau meddygon teulu i'r adran achosion brys ac ymhlith nyrsys ysgol.

Mae'r prosiect Youth Voices Conversation yn enghraifft dda o ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer ymgysylltu â phlant a gofyn eu barn am y pethau sy'n achosi pryder iddynt mewn perthynas â phlisma a diogelwch cymunedol. Yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2021, rhoddodd 800 o bobl ledled ardal yr heddlu adborth. Tynnwyd themâu ynghyd ar gyfer pob Uned Reoli Sylfaenol ac ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, maent yn cynnwys troseddau â chyllyll a throeddau treisgar, cyffuriau ac achosion o yfed a smygu dan oed. Cyflwynodd y bobl ifanc eu canfyddiadau i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabl Cynorthwyol o Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Lluniwyd argymhellion ynghylch sut y mae'r heddlu yn bwriadu gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae Tîm Diogelu Corfforaethol y bwrdd iechyd yn helpu BIPBA i weithredu ei ddyletswyddau i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl o fewn y fframwaith statudol. Mae'r tîm yn ymdrin â'r materion mwyaf perthnasol y gall y bwrdd iechyd ddod ar eu traws o ran plant ac oedolion mewn perygl, ynghyd â materion fel trais yn erbyn menywod, caethwasiaeth fodern a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Er mwyn monitro a rheoli digwyddiadau diogelu ac unrhyw achosion sy'n peri pryder, mae'r tîm yn monitro'r holl rybuddion diogelu a gaiff eu sbarduno drwy ei system rheoli digwyddiadau electronig. Mae hyn yn gadarnhaol gan ei fod yn caniatáu i'r tîm nodi digwyddiadau nad oes angen cyflwyno adroddiad neu atgyfeiriad diogelu yn benodol ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu y gellir casglu gwybodaeth ynghyd a rhannu dysgu mewn perthynas â diogelu ar draws timau.

Ynghyd â phob bwrdd iechyd yng Nghymru, mae'n ofynnol i BIPBA gwblhau Matrics Aeddfedrwydd Diogelu blynyddol (adnodd hunanasesu) er mwyn gwerthuso ansawdd y gofal a ddarperir ganddo, nodi gwelliannau ac adolygu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau gofal y cytunwyd arnynt. Mae'n gadarnhaol nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau camau gweithredu yn dilyn yr asesiad diwethaf. Dywedwyd wrthym y caiff unrhyw wersi a ddysgir neu gamau gweithredu a roddir ar waith eu lledaenu i'r timau gofal iechyd perthnasol ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn gam gweithredu cadarnhaol er mwyn helpu i wella ymarfer cyffredinol mewn perthynas â diogelu, amddiffyn plant sy'n agored i niwed a'r rheini sy'n wynebu risg o gamfanteisio neu niwed.

Mae BIPBA wedi cynnal archwiliadau ddwywaith y flwyddyn er mwyn monitro a gafodd adnodd CSERQ ei ddefnyddio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth o gydymffurfio â'r broses hon. Dywedwyd wrthym fod pob Adolygiad Ymarfer Plant a gyhoeddir yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelu, ac y caiff unrhyw bwyntiau dysgu neu argymhellion eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Adolygiadau Ymarfer y Bwrdd Iechyd. Ar gyfer dysgu a rennir, caiff cynlluniau gweithredu eu lledaenu fel y bo'n briodol i'r grwpiau gwasanaeth perthnasol, a chaiff cynnydd yn hyn o beth ei fonitro gan y Pwyllgor Diogelu. Nodwyd dystiolaeth o archwiliadau ar blant a ddaeth i'r adran achosion brys. Roedd yr archwiliad yn cynnwys gwybodaeth allweddol er mwyn canfod y canlynol: a oedd y plentyn yn mynychu'n rheolaidd, a gafwyd manylion am yr unigolyn a ddaeth gyda'r plentyn, a edrychwyd ar y gofrestr amddiffyn plant, ac a gwblhawyd ffurflen CSERQ gan nodi'r holl wybodaeth berthnasol. Roedd hyn yn dangos bod gan BIPBA wiriadau priodol ar waith.

Mae gan bob un o wasanaethau BIPBA sy'n ymwneud â phlant arweinwyr diogelu perthnasol. Gwelsom fod prosesau da ar waith ar gyfer bwydo i sianelau llywodraethu priodol fel cyfarfodydd diogelu adrannol, cyfarwyddiaethau a chorfforaethol, a phwyllgorau. Er mwyn helpu'r staff yn eu gwaith beunyddiol, a lle mae angen cyngor ar unwaith, mae gan y Bwrdd Iechyd dudalen diogelu benodedig ar ei fewnrwyd sydd ar gael yn hawdd i'r staff.

Mae'r wardiau paediatrig ac adrannau eraill (fel yr adran achosion brys), sy'n darparu gwasanaethau i blant, yn ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc wrth ymgynghori â nhw. Roedd Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal yn ceisio ymgysylltu â'r plentyn a chynnwys ei lais yn y broses Aseidiadau Iechyd Statudol.

Mae grŵp uwch-reolwyr y gwasanaethau plant yn gweithio mewn ffordd gydlynus ac roeddent yn weladwy i'r gweithlu cyfan. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn teimlo'n 'ddiogel' wrth rannu penderfyniadau risg. Gwnaethom gwrdd â gweithwyr proffesiynol

ymrwymedig, llawn cymhelliant a oedd yn dangos dealltwriaeth dda o natur y gwaith mewn perthynas â phlant a theuluoedd sydd mewn perygl neu sy'n wynebu achosion o gamfanteisio. Gwnaethom gydnabod natur gymhleth y gwaith hwn. Mae'r gweithlu gwaith cymdeithasol yn sefydlog ac mae'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw yn gadarnhaol. Mae'r llwyth gwaith yn hydrin ar y cyfan. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn rhoi'r cyfle i'r ymarferwyr fyfyrion wrth weithio o dan amgylchiadau cymhleth.

Roedd ffyrdd o feddwl arloesol gan grŵp uwch-reolwyr y gwasanaethau plant, ac roeddent yn barod i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio, er enghraifft, newidiadau mewn perthynas â diogelu cyd-destunol. Mae'r awdurdod lleol yn flaengar o ran cymryd rhan mewn sawl prosiect gan weithio gydag academyddion.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hawliau plant i gael cynnig eiriolaeth ffurfiol. O'r wybodaeth a ddarparwyd, gwelsom dystiolaeth fod y plant yn cael cynnig cyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth; nid oeddent bob amser yn derbyn y cynnig.

Dangosodd tystiolaeth o ffeiliau achos y gwasanaethau plant gysondeb o ran trefniadau goruchwyllo, cyfleoedd i ymgynghori ar achosion a threfniadau goruchwyllo o ansawdd da gan y rheolwyr. Roedd yr ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y rheolwyr yn brofiadol ac yn hawdd mynd atynt; gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda, eu bod yn mwynhau gweithio i'r awdurdod lleol a bod diwylliant cefnogol ar waith.

Yn SPOC, roedd ansawdd y penderfyniadau trothwy a wnaed yn gyson ar y cyfan, ac roedd cyd-destun penderfyniadau i'w weld yn sylwadau'r rheolwr ac wrth gymeradwyo penderfyniadau. Wrth adolygu cofnodion, nodwyd gennym fod systemau sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol wedi nodi bod ffeil wedi cael ei chau'n rhy gynnar a'i bod wedi cael ei hailagor er mwyn gallu asesu ac ystyried y risg bosibl ymhellach.

Mae gweithgareddau dysgu a datblygu wedi parhau drwy gydol y pandemig ar gyfer staff yr awdurdod lleol, gyda gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol yn cefnogi diwylliant o ddatblygu ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Nododd y staff fod ansawdd yr hyfforddiant camfanteisio ar-lein yn dda.

Gwnaed gwaith i ddatblygu pecyn cymorth er mwyn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i ymateb yn effeithiol ac yn gyson i achosion o niwed y tu allan i gartref y teulu. Bwriedir iddo weithredu fel canllaw/rhestr wirio er mwyn helpu i lywio'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwneud penderfyniadau, asesu a chynllunio. Roedd ar gam peilot o hyd ac felly nid oedd pob aelod o staff, na'r partneriaid, yn ymwybodol ohono, a'r bwriad yw y bydd y Grŵp Rheoli Ansawdd a Pherfformiad yn gwerthuso ei ddefnyddioldeb.

Cafwyd arweinyddiaeth gryf gan swyddogion yr awdurdod lleol a aeth ati mewn ffordd strategol a gweithredol i hyrwyddo diwylliant diogelu effeithiol ym mhob ysgol. Mae'r swyddog Diogelu Addysg arweiniol yn fedrus ac yn wybodus, ac roedd pob ysgol yn gwerthfawrogi ei chynghor a'i chymorth proffesiynol.

Roedd tystiolaeth gadarn o gydweithredu buddiol ar draws timau yn y gwasanaeth Addysg er mwyn annog ymdrechion effeithiol i rannu gwybodaeth, diwylliant o fyfyrion a herio er mwyn ceisio gwella ansawdd y cymorth sydd ar gael i ysgolion yn barhaus. Dywedodd y penaethiaid fod swyddogion addysg arweiniol yn hawdd mynd atynt, a'u bod yn gwrando ar eu barn.

Mae gan yr awdurdod lleol drosolwg cadarn o arferion diogelu ym mhob ysgol ac mae strwythurau a phrosesau clir ar waith i sicrhau ansawdd yr ymarfer. Mae pob ysgol yn cwblhau archwiliad diogelu manwl bob blwyddyn. Mae hyn yn eu helpu i nodi eu cryfderau a meysydd i'w gwella. Roedd pob ysgol, fwy neu lai, wedi mabwysiadu polisi Amddiffyn Plant enghreifftiol yr awdurdod lleol. Mae'n cynnwys yr holl elfennau y byddech yn disgwyl eu gweld mewn polisi o'r fath. O'r sampl y gwnaethom graffu arni, roedd pob un yn briodol ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn, er enghraifft er mwyn cynnwys newidiadau mewn deddfwriaeth neu brotocolau ysgolion.

Bob tair blynedd, mae'r ysgolion yn destun adolygiad diogelu gan gyfoedion sy'n nodi eu cryfderau a meysydd i'w gwella ymhellach. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys i ba raddau y mae'r ysgolion yn lleihau'r risg y ceir achosion o gamfanteisio ar blant. Lle y bydd yr awdurdod lleol yn nodi diffygion, cânt eu hystyried ymhellach drwy gyfarfodydd ac asesiadau dilynol. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, cafodd y fenter adolygu cyfoedion ei gohirio dros dro. Er mwyn helpu i liniaru'r risgiau, bydd yr awdurdod lleol yn craffu ar archwiliadau diogelu pob ysgol yn ystod tymor yr hydref a bydd yn ymdrin ag unrhyw bryderon yn uniongyrchol â'r ysgolion.

Roedd rhaglen hyfforddi a datblygu gadarn o ansawdd uchel ar waith i'r ysgolion wedi'i chyflwyno gan yr awdurdod lleol. Roedd yn cynnwys hyfforddiant ar sut i nodi ac ymdrin ag achosion posibl o gamfanteisio'n droseddol ar blant ac o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. I bob pwrpas, mae hyn yn helpu'r ysgolion i adnabdd arwyddion cynnar o gamfanteisio, ac yn cynnig gwell hyfforddiant camfanteisio i staff ysgolion sy'n addysgu ac yn cefnogi pobl ifanc hynod heriol y gwyddys eisoes eu bod yn wynebu risg.

Roedd trefniadau arwain a rheoli diogelu mewn ysgolion yn gadarn, ac roedd athrawon diogelu dynodedig penodol yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o arferion diogelu effeithiol. Ym mhob ysgol, fwy neu lai, roedd y staff yn adnabod yr arwyddion os oedd rhywun yn camfanteisio'n droseddol neu'n camfanteisio'n rhywiol ar ddisgybl. Roedd gan ysgolion uwchradd yn arbennig raglenni bugeiliol cadarn ar gyfer disgyblion sy'n wynebu risg o achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Ar draws y gwasanaethau addysg, roedd ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaethau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai'r gwasanaethau addysg ddarparu siaradwyr Cymraeg i helpu pobl ifanc a'u teuluoedd lle nodwyd bod angen cymorth o'r fath. Roedd digon o siaradwyr Cymraeg ym mhob tîm yn yr awdurdod lleol i fodloni gofynion ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau cwnsela a chymorth gan y gwasanaeth lles addysg. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn gofyn am gymorth drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn arbennig o amlwg os byddant yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Mae Ysgol Hendrefelin yn darparu cymorth arbenigol i bobl ifanc, y gwyddys fod perygl y bydd rhai ohonynt yn destun achos o gamfanteisio. Mae staff ym mhob rhan o'r ysgol wedi cael hyfforddiant parhaus ar y dull gweithredu ar sail trawma, a hyfforddiant gan Junior Smart a oedd yn ymdrin â chamfanteisio. Yn ogystal, mae Ymddiriedolaeth St Giles, swyddog cyswllt yr heddlu yr ysgol a staff o'r Tîm Llesiant wedi gweithio'n agos â'r ysgol. Mewn un achos a adolygwyd gennym, cafodd y broses o drosglwyddo person ifanc i Ysgol Hendrefelin ei chefnogi gan staff yr ysgol a ymwelodd â'r lleoliad presennol i gyfarfod ag ef

er mwyn meithrin cydberthynas waith. Bydd y tîm Cynnydd yn darparu cymorth ychwanegol. Mae'r pwyslais ar annog y person ifanc i gymryd rhan mewn addysg yn hanfodol er mwyn tynnu ei sylw oddi wrth ymdrechion pellach posibl i gamfanteisio arno.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr yr ysgol i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd strategol allweddol a oedd yn ymwneud â'i disgyblion. Nodwyd ganddynt fod eu lleisiau wedi cael eu clywed a'u bod yn chwarae rhan allweddol wrth wneud penderfyniadau. Roeddent yn aml yn herio safbwyntiau a phenderfyniadau gweithwyr proffesiynol eraill. Un o'r diffygion oedd bod gwybodaeth am gyfarfodydd yn aml yn cael ei hanfon ar fyr rybudd, sy'n ei gwneud hi'n anodd trefnu presenoldeb.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhannu ei fframwaith ar gyfer Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Person â phob ysgol ac mae ganddo raglen i hyfforddi pob aelod o staff yr ysgol i'w roi ar waith. Mae hefyd yn cyflwyno gwaith Ysgolion sy'n Parchu Hawliau i bob ysgol. Roedd yn ymgynghori â phobl ifanc ar sawl pwnc ym mhob rhan o'r awdurdod lleol. Er enghraifft, adeg cynllunio'r uned arbenigol yn Ysgol Dŵr-y-Felin, cyfarfu'r swyddogion â'r plant i drafod sut y dylid ei sefydlu. Mae yna bolisi drafft newydd ar gyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, a chaiff y polisi hwn ei rannu â'r bobl ifanc gan yr awdurdod lleol yn ystod y broses ymgynghori. Sefydlwyd y Bwrdd Diogelu Iau yn 2019 ac mae wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant a phobl ifanc leisio barn a dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yn yr awdurdod lleol.

Roedd y Gwasanaeth Ieuencid ymhlith y cyntaf yng Nghymru i gyrraedd safonau Cyfranogiad Plant yng Nghymru. Mae'r Cyngor Ieuencid wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth Ieuencid Genedlaethol am ei waith ynghylch hawliau plant. Mae'r awdurdod lleol ymhlith nifer bach iawn o awdurdodau sydd wedi ethol Maer Ieuencid.

Mae'r awdurdod lleol yn rhedeg clybiau ieuencid i ddisgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar neu'n cwestiynu (LGBTQ+) a disgyblion sy'n siarad Cymraeg. Cafwyd cynrychiolaeth gadarn o blith y grwpiau hyn ar y Cyngor Ieuencid. Roedd cyfarfodydd y cyngor ieuencid wedi'u cadeirio gan arweinydd y cyngor sy'n atgyfnerthu ymhellach y pwysigrwydd a rydd yr awdurdod lleol ar lais pobl ifanc. Roedd pobl ifanc LGBTQ+ hefyd yn rhan o'r gweithgor addysg rhyw a pherthnasoedd a oedd yn hyrwyddo newidiadau i wersi addysg rhyw a pherthnasoedd er mwyn adlewyrchu materion LGBTQ+ yn well.

Mae'r gwasanaeth Dysgwyr sy'n Agored i Niwed wedi rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol (SIY) iddynt. Gall y gwasanaeth hwn ymateb yn hyblyg i anghenion ysgolion. Mae ganddo saith cynorthwyydd addysgu dwyieithog sy'n adlewyrchu'r prif ieithoedd yn ardal yr awdurdod lleol. Roedd y tîm yn falch iawn o'r canlyniadau academaidd cadarn y mae disgyblion SIY wedi'u cyflawni yn yr awdurdod lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwasanaeth Dysgwyr sy'n Agored i Niwed hefyd yn gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Roedd y staff yn cydnabod bod nodweddion agored i niwed disgyblion yn y grwpiau hyn yn golygu bod risg y byddent yn destun achosion o gamfanteisio ac maent yn gweithio'n agos â'r ddau safle i Deithwyr er mwyn helpu plant a'u teuluoedd. Roedd trefniadau gweithio amlasiantaeth cadarn ar waith gyda'r safleoedd er mwyn sicrhau bod y disgyblion hyn yn ddiogel a bod digon o feddyginiaeth a bwyd ar gael iddynt.

Roedd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn frwdfrydig ac yn dangos ymrwymiad i helpu plant a phobl ifanc. Roeddent yn cydnabod pwysigrwydd meithrin cydberthnasau

gwaith cadarn er mwyn cyflawni newidiadau cadarnhaol mewn ffordd adeiladol. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod cydberthnasau cadarnhaol â phlant a theuluoedd yn creu ymddiriedaeth ac yn annog y plant i ddatgelu'r materion sy'n achosi pryder iddynt. Dywedodd person ifanc y gwnaethom gyfweled ag ef fod sawl gweithiwr cymdeithasol gwahanol wedi cael eu neilltuo iddo yn y gorffennol, ond fod ei weithiwr cymdeithasol presennol, gweithiwr y Gwasanaeth Troseddau leuenctid a'r gweithiwr Cynnydd oll yn gwrando arno ac yn ei drin â pharch. Yn yr un modd, dywedodd gofalwr maeth y gwnaethom gyfweled â hi wrthym ei bod yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth dda gan ei gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr Cynnydd. Dywedodd ei bod yn ymddiried yn llwyr ynddynt, eu bod yn dangos parch a'i bod yn hawdd cysylltu â nhw.

Mae pob aelod o staff y Gwasanaeth Troseddau leuenctid wedi cael hyfforddiant i nodi achosion o gamfanteisio ar blant ac ymateb iddynt. Roedd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu o bell gan Barnardo's a chawsom gopiâu o'r deunydd hyfforddiant a oedd yn gynhwysfawr. Roedd y llwythi gwaith yn briodol ac yn galluogi'r ymarferwyr i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'r plant.

Un o ganfyddiadau arolygiad 2019 oedd nad oedd bwrdd rheoli'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn deall anghenion plant na'r gwasanaeth. Roedd y sefyllfa hon wedi gwella'n sylweddol, a cheir cyswllt agos rhwng aelodau'r bwrdd rheoli a'r staff. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi dechrau gwahodd pobl ifanc o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Troseddau leuenctid i gyfarfodydd y bwrdd.

Meysydd i'w Datblygu

Er i ni nodi enghreifftiau o ymarfer gwaith cymdeithasol cadarn wrth gael gwybod barn plant a phobl ifanc, roedd ansawdd a chynnwys cofnodion ysgrifenedig yn amrywio. Roedd yn gadarnhaol bod plant yn cael eu gweld ac yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain, ond nid oedd yr ymarfer gwaith cymdeithasol da y gwnaethom glywed amdano o ran cael gwybod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael ei adlewyrchu'n gyson dda yng nghynnwys asesiadau, ac roedd rhai ohonynt yn canolbwyntio gormod ar yr oedolyn. Roedd anghysondeb wrth gofnodi llais y plentyn hefyd yn amlwg yng nghofnodion yr heddlu.

Nodwyd gennym fod sgysiau Yr Hyn sy'n Bwysig wedi'u cofnodi yng nghofnodion y gwasanaethau cymdeithasol, ond gellid eu gwella drwy sicrhau gwell eglurder o ran beth sydd angen iddo ddiwydd er mwyn cyflawni canlyniadau personol. Roedd yn gadarnhaol bod gweithwyr yn ystyried eu hunain yn eiriolwyr dros y plant y maent yn gweithio gyda nhw, ond roedd yn llai amlwg bod dealltwriaeth a rennir o werth ychwanegol a swyddogaeth eiriolaeth annibynnol. Mae angen ailystyried y maes hwn er mwyn sicrhau y caiff ei hyrwyddo'n fwy cadarn. Gallai gweithio gyda darparwr newydd, sef y Gwasanaeth Eiriolaeth leuenctid Cenedlaethol, gynnig y cyfle hwn.

Yn ystod cyfweiliadau, roedd staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu disgrifio arwyddocâd gwaith yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar sail cryfderau ond nid oedd 'profiad bywyd' y plentyn bob amser yn amlwg mewn cofnodion. Er bod yr awdurdod lleol yn gweithio'n unol ag ethos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, nodwyd gennym fod angen datblygu dull ymarfer ar sail cryfderau ymhellach a'i roi ar waith. Nid oedd sawl enghraifft o gadw cofnodion yn amlwg yn seiliedig ar ganlyniadau, roeddent yn aml yn rhy ddisgrifiadol ac nid oeddent yn cynnwys arwydd clir o gryfderau'r plant, beth roedd gweithwyr

proffesiynol yn poeni yn ei gylch a beth a ddisgwylir gan y plant, y gofawyr a'r gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau diogelwch a chyflawni'r canlyniadau dymunol.

Yn aml, nid oedd asesiadau'r gwasanaethau plant yn cynnwys ymdeimlad digonol o'r plentyn yng nghyd-destun y teulu ehangach. Nodwyd yn benodol nad oedd arwyddocâd y gydberthynas rhwng y plentyn a'i frodyr a'i chwiorydd a'r teulu estynedig bob amser yn cael ei ystyried. Nid oedd y broses o nodi risgiau bob amser yn ddigon cadarn nac yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau i helpu'r plentyn a'r teulu i ddeall ffocws gofynnol y newidiadau.

Ni welsom dystiolaeth gyson bod cynlluniau diogelwch yn cael eu gweithredu a'u hadolygu ar y cyd. Mewn rhai achosion, roedd diffyg eglurder ynghylch pa asiantaethau oedd yn gyfrifol am ymdrin â pha agweddau ar bryderon diogelwch a llesiant. Gall gweithwyr proffesiynol, plant a theuluoedd fel ei gilydd gael eu llethu gan ddiffyg cydgysylltiad o ran darparu gwasanaethau amlasiantaeth. Clywsom, oherwydd y pandemig, nad oedd asesiadau bob amser yn cael eu rhannu â theuluoedd, er bod gweithwyr cymdeithasol yn treulio amser yn trafod yr asesiad gyda nhw.

Mae goruchwyliaeth a chymorth diogelu yn elfen hanfodol o lywodraethu clinigol, gan sicrhau gwelliannau parhaus wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel i ddefnyddwyr gwasanaethau yn unol â Chanllawiau Goruchwyllo Arferion Gorau Diogelu Cymru Gyfan. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn defnyddio amrywiaeth o fodelau ar gyfer goruchwyllo diogelu. Fodd bynnag, drwy ein cyfweiliadau â staff, nodwyd gennym fod trefniadau goruchwyllo diogelu yn anghyson ar draws y bwrdd iechyd gyda rhai aelodau o'r staff yn nodi bod trefniadau goruchwyllo diogelu ar waith yn aml, ac eraill yn nodi nad oedd unrhyw systemau ar waith ar gyfer goruchwyllo diogelu. Serch hynny, dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod cydberthnasau da, trefniadau cyfathrebu da a chymorth da ar gael iddynt gan yr arweinwyr diogelu yn y byrddau iechyd. Felly dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau goruchwyllo diogelu cyson ar waith i bob aelod o staff perthnasol ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Yn dilyn dadansoddiad o anghenion hyfforddi a gynhaliwyd yn 2019/2020, nododd BIPBA fel isafswm, fod angen i bob grŵp staff gwblhau Hyfforddiant Diogelu Oedolion a Phlant Lefel 2. Mae'r hyfforddiant hwn ar gael drwy e-Ddysgu ac mae angen iddo ddod yn rhan o ofynion monitro hyfforddiant gorfodol Bwrdd cyfan BIPBA. Rhaid i BIPBA roi blaenoriaeth ar unwaith i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn ar gael i'r staff ac i neilltuo amser astudio iddynt ei gwblhau.

Gan nad oedd hyfforddiant camfanteisio amlasiantaeth wyneb-yn-wyneb ar gael yn ystod y pandemig, gwnaeth BIPBA yn siŵr bod rhywfaint o gynnwys camfanteisio wedi'i gynnwys yn ei hyfforddiant Lefel 3. Disgwylir i hyfforddiant camfanteisio wyneb-yn-wyneb llawn ailddechrau yn y dyfodol agos.

Roedd gan staff BIPBA y gwnaethom siarad â nhw lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth ar y cyfan mewn perthynas â chamfanteisio. Fodd bynnag, cafwyd adroddiadau cymysg am yr hyfforddiant roedd y staff wedi'i gael. Roedd hyn yn gyson â phenderfyniad BIPBA i ohirio hyfforddiant camfanteisio mewn ymateb i'r pandemig. Pan fydd yr hyfforddiant yn ailddechrau, bydd hefyd ar gael i staff ym maes gofal sylfaenol, fel practisau meddygon teulu.

Roedd rhai bylchau o ran hyfforddiant ar gyfer yr heddlu, er enghraifft, hyfforddiant ar gyfer rolau penodol i swyddogion unedau atgyfeirio. Gwelsom hefyd nad oedd swyddogion unigol yn dangos cydnabyddiaeth na gwybodaeth gynhwysfawr am faterion camfanteisio ar blant, sy'n nodi bod angen rhagor o waith i sicrhau bod swyddogion ac aelodau o staff yn gwbl ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Gan fod y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn awyddus i wella ansawdd ei wasanaeth, mae wedi datblygu sawl cynllun ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r broses o fonitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn gymhleth ac yn llafurus ac roedd wrthi'n ystyried sut y gellid symleiddio'r prosesau hyn i'w gwneud yn fwy hydrin. Datblygwyd amrywiaeth eang o gyfarfodydd a fforymau, yn fewnol i'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid a thrwy drefniadau partneriaeth, mewn ymateb i'r anghenion a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phlant penodol. Disgrifiodd ymarferwyr broblemau gorlwytho gan fod cyfarfodydd lluosog â dibenion yn gorgyffwrdd yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r un plentyn o fewn cyfnod byr o amser. Megis dechrau roedd y gwaith o ddatblygu rhai o fentrau'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid ac nid oedd pob rhan o'r bartneriaeth bob amser yn ymwybodol ohonynt. Bydd yn bwysig sicrhau y cânt eu gwerthuso.

Nodwyd gennym fod canfyddiadau rheolwyr a staff y gwasanaeth prawf am allu'r gwasanaeth i ganolbwyntio ar ddiogelu yn amrywio. Er enghraifft, roedd rheolwyr o'r farn fod mesur dros dro 'ymweliad carreg drws' yn darparu rhywfaint o sicrwydd diogelu pan fydd plant yng nghartref oedolyn sydd wedi troseddu. Roedd yr ymarferwyr yn llai sicr yn hyn o beth, gan nodi gan eu bod yn aml yn dibynnu ar gydweithwyr i ymgymryd â'r ymweliadau hyn, bod cyfyngiadau o ran y graddau y gellid dibynnu arnynt. Mae materion sylweddol i'w datrys wrth i'r prosesau a'r strwythurau newydd ddechrau cael effaith.

Nododd staff y gwasanaeth prawf fod eu llwythi gwaith yn uchel, er bod hyn yn broblem ym mhob rhan o'r gwasanaeth prawf. Roedd hyfforddiant wedi'i ddarparu i'r gwasanaeth prawf ar ddiogelu plant cyffredinol, ond ni chynigiwyd unrhyw hyfforddiant penodol ar gamfanteisio. Roedd diffyg gwybodaeth gyffredinol am y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Roedd diffyg gwybodaeth am weithdrefnau diogelu a phrosesau rhannu gwybodaeth (yn enwedig rhwng y gwasanaeth prawf a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid).

Partneriaethau ac Integreiddio

Cryfderau

Nodwyd gennym fod y partneriaid yn nodi risgiau i blant ac yn rhoi gwybod yn brydlon am faterion diogelu. Er enghraifft, mae gan yr heddlu system ar gyfer monitro atgyfeiriadau dros y penwythnos sy'n golygu y gellir ymateb i faterion brys. Mae prosesau cychwynnol amserol ac effeithlon mewn perthynas ag atgyfeiriadau o fudd i SPOC. Mae trefniadau blaenoriaethu cynnar yn golygu y caiff plant sy'n wynebu risg o niwed sylweddol eu nodi'n gyflym ac y cânt sylw ar unwaith. Gwnaethom nodi fod gan rai asiantaethau fynediad buddiol at systemau ei gilydd, sef y Gwasanaethau Troseddau leuenctid a'r gwasanaethau cymdeithasol, a bod gan BIPBA fynediad at y gofrestr amddiffyn plant ar system yr awdurdod lleol.

Roedd proses glir a oedd yn cael ei deall yn dda er mwyn i weithwyr proffesiynol atgyfeirio pryderon am blant i'r SPOC, dros y ffôn i ddechrau a thrwy gwblhau ffurflen atgyfeirio

integredig neu, yn achos yr heddlu, ffurflenni hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd. Roedd y ffurflen atgyfeirio integredig yn hyrwyddo cysondeb ac fe'i datblygwyd ar y cyd gan bartneriaid amlasiantaeth, gan dreulio amser ychwanegol i gael hyfforddiant ar sut i'w chwblhau. Bu'r amser hwn o fudd mawr, ac mae ansawdd atgyfeiriadau wedi gwella yn ôl pob tebyg. Mae'r ffurflen yn tywys yr atgyfeiriwr yn glir drwy'r broses o ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod hyn yn helpu'r broses gwneud penderfyniadau. Roedd ansawdd yr atgyfeiriadau yn foddhaol ar y cyfan o ran galluogi'r SPOC i wneud penderfyniadau ar y camau nesaf. Roedd materion yn ymwneud â chydysyniad yn cael eu datrys ar y cyfan, ac roedd staff SPOC yn cynnal gwiriadau asiantaeth cymesur yn rheolaidd fel rhan o'r broses sgrinio.

Roedd cydberthnasau cadarn a threfniadau cydweithio agos yn amlwg rhwng partneriaid allweddol yn SPOC ac roedd trefniadau effeithiol i'w gwel ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, bu Uned Atgyfeiriadau'r Heddlu yn rhan o dîm SPOC ers mis Tachwedd 2019. O ganlyniad, ceir mwy o gyswllt a gwell dealltwriaeth gyffredin. Yn yr un modd, roedd hyn yn berthnasol i'r gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â SPOC.

'Drws ffrynt' y gwasanaeth prawf yw'r llys, felly hefyd pan fydd materion diogelu plant yn codi mewn achosion. Gall creu cysylltiadau rhwng oedolion sy'n peri risg a phlant sy'n agored i niwed fod yn gymhleth gan fod ganddynt gyfenwau a chyfeiriadau gwahanol yn aml. Mae systemau ar waith ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac roedd y systemau hyn yn effeithiol ar y cyfan yn yr achosion a adolygwyd.

Enghraifft arall o gydweithrediad rhyngasiantaeth oedd pan oedd ymwelwyr iechyd yn rhannu gwybodaeth bwysig ag ysgolion cynradd wrth i blant ddechrau addysg feithrin. Gan fod y rhan fwyaf o ymwelwyr iechyd yn adnabod y plant yn dda iawn, mae hyn yn helpu staff yr ysgol i ddiwallu anghenion y disgyblion cyn gynted â phosibl. Roedd y cyfathrebu rhwng y gwasanaethau plant a'r ysgolion arbennig yn gryf iawn.

Roedd tystiolaeth gadarn o ddulliau amlasiantaeth o asesu a dadansoddi gwybodaeth er mwyn llywio cynlluniau diogelwch. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau plant ac Ysgol Cwm Brombil wedi treialu cyfarfodydd triongli lleol â phartneriaid. Mae'r rhain yn cynnig cyfle gwerthfawr i drafod y bobl ifanc ac i nodi cysylltiadau â'r heddlu a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid er mwyn mapio cysylltiadau pwysig rhwng unigolion, darpar droseddwyr a lleoliadau cymunedol. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn datblygu cylch gorchwyl ar gyfer y dull hwn a gaiff ei gyflwyno ledled yr awdurdod lleol.

Mae darpariaeth ymyriadau cynnar ddatblygedig fuddiol ar gael i blant a theuluoedd, drwy'r SPOC a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid. Roedd y panel ymyriadau cynnar amlasiantaeth yn darparu trefniadau goruchwylio ychwanegol gan reolwyr ar gyfer trothwyon, her adeiladol a mynediad at wasanaethau ac adnoddau priodol. Nodwyd trefniadau cydweithio da, er enghraifft, roedd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn rhan o'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), yn aelod o'r Panel Ymyriadau Cynnar ac yn mynychu ymweliadau cartref â gweithwyr y tîm. Mae hyn yn golygu y gellir nodi unrhyw bryderon plismona ac ymdrin â nhw yn ystod cam cynnar ac mae'n cefnogi cydberthnasau cadarnhaol ac ethos amlasiantaeth o nodi achosion ar gam cynnar a'u hatal.

Mae'r trefniadau hyn yn helpu i wella dealltwriaeth o rolau proffesiynol ac yn cynnig dulliau rheoli mwy hyblyg mewn perthynas â throthwyon gwasanaeth, gan gefnogi uchelgais y

cyngor o gyfeirio pobl yn haws rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau ymyriadau cynnar. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth, cyngor a chymorth hygrych ac o bobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau ataliol.

Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth yn buddsoddi mewn amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth a gwasanaethau therapiwtig, gan gynnwys gwasanaethau o'r trydydd sector a ddefnyddir yn yr amgylchedd ataliol ac i gefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol o ymyriadau statudol.

Mae amrywiaeth effeithiol o ymyriadau cymorth mewnol ar gael i ysgolion drwy ymgynghori ag asiantaethau eraill. Roedd y swyddog Diogelu Addysg arweiniol yn rhoi cymorth ac arweiniad gwerthfawr i bob ysgol ac mae ganddo rôl greiddiol wrth weithio gyda'r holl asiantaethau. Roedd gweithwyr Cynnydd, fel rhan o'r Tîm Llesiant, yn gweithio ym mhob ysgol uwchradd ac yn y coleg. Maent yn llwyddo'n gyson i feithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol a chryf â'r disgyblion a nodir.

Nodwyd gennym fod yr asiantaethau partner yn rhoi cymorth i blant a oedd wedi'u cadw yn y ddalfa gan yr heddlu. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys gweithwyr atgyfeirio Dyfodol o brosiect Kaleidoscope a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn yn golygu y gall y plant gael gafael ar gymorth sy'n berthnasol i'w hiechyd a'r ffactorau sy'n golygu eu bod yn agored i niwed, gyda threfniadau cyfeirio ac ymyriadau wedi'u rhoi ar waith.

Dywedwyd wrthym am brosiect peilot sydd ar fin dechrau rhwng awdurdodau lleol, Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent, Heddlu Dyfed Powys a Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â darparu gwely llety amgen i blant a gedwir yn y ddalfa gan yr heddlu ar ôl eu cyhuddo o drosedd. Mae'r datblygiad hwn yn un cadarnhaol gan nad yw cadw plentyn yn un o orsafoedd yr heddlu am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol, ac eithrio o dan amgylchiadau prin iawn, er budd pennaf y plentyn.

Cyfarfu panel risg gyd-destunol yr awdurdod lleol yn rheolaidd i drafod y bobl ifanc yr oedd risg y byddent yn destun camfanteisio. Mae'r tîm amlasiantaeth hwn yn cynllunio camau gweithredu a chymorth ar gyfer pobl ifanc y mae achosion o gamfanteisio y tu allan i'r teulu yn effeithio arnynt. Lle bo asiantaethau wedi nodi materion difrifol o fewn cymuned leol, roedd yr asiantaethau yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i drafod pryderon ac i gytuno ar gamau gweithredu er mwyn helpu'r bobl ifanc a rhoi arweiniad yn yr ysgol.

Roedd y gwasanaethau iechyd yn gweithio'n dda i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon. Roedd trefniadau da ar waith gan feddygon teulu i weithio mewn partneriaeth ac roedd tystiolaeth eu bod yn ymgysylltu â chwyselwyr ysgolion a gwasanaethau'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid. Nododd y meddygon teulu er nad ydynt yn mynychu cyfarfodydd strategaeth eu bod yn cyflwyno adroddiadau i'r cyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol, gan sicrhau y caiff gwybodaeth allweddol am gleifion ei rhannu er mwyn i'r partneriaid amlasiantaeth wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth yn ystod y cyfarfodydd.

Gwelsom dystiolaeth o feddygon teulu ac ysgolion yn cydweithio â phlant er mwyn sicrhau cyfraniad gan gwyselwr ysgol pan nad oedd gwasanaethau ar gael gan CAMHS. Yn ogystal, roedd gwasanaethau cwnsela ysgolion hefyd yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â meddygon teulu pan oedd angen ymyriad gan CAMHS. Roedd hyn yn dangos trefniadau allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cael

gafael ar y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt.

Roedd pob aelod o'r staff yn BIPBA yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r prosesau Dyletswydd i Adrodd. Roedd asesiadau gofal iechyd yn cael eu cwblhau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o fewn y terfynau amser statudol ac roeddent yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Dywedodd meddygon teulu wrthym, wrth gynnal asesiadau ac ystyried anghenion meddygol plant yn Hillside, y byddai oedi yn aml wrth aros am y wybodaeth feddygol gan yr awdurdod a oedd yn trosglwyddo'r achos, yn enwedig i blant a oedd yn dod o Loegr. O ganlyniad, gellid methu gwybodaeth allweddol wrth ddarparu triniaeth feddygol i'r plant.

Meysydd i'w Datblygu

Megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r dull gweithredu mewn perthynas â chamfanteisio'n droseddol ar blant. Nid oes unrhyw brotocol amlasiantaeth ar gyfer camfanteisio'n droseddol ar blant ac nid oes asesiad risg y cytunwyd arno ychwaith. Er bod gan yr heddlu dîm penodol ar gyfer mynd i'r afael â Throseddau Cyfundrefnol a Llinellau Cyffuriau sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n agored i niwed, nid oes tîm camfanteisio'n droseddol ar blant sy'n gwbl gyfrifol am y plant ac yn gweithredu swyddogaeth ymyrryd, diogelu ac amharu hirdymor gysylltiedig. Mae rhywfaint o waith yn mynd rhagddo yn y maes hwn. Er enghraifft, mae gan staff y Gwasanaeth Troseddau leuenctid gysylltiadau ag asiantaethau partner fel Better Futures, sy'n darparu cyngor ar gamfanteisio troseddol mewn achosion unigol.

Er y cydnabuwyd achosion o gyfathrebu cadarnhaol a rhyngweithio iach yn gyffredinol, roedd tystiolaeth mewn dau achos o wahaniaethau proffesiynol mewn perthynas â rhoi cynlluniau diogelwch ar waith ar lefel weithredol ac nid oedd unrhyw gofnod bod y materion hyn wedi cael eu datrys neu wedi cael eu huwchgwyfeirio. Mae angen i'r bartneriaeth adolygu'r maes hwn er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth amserol yn cael eu rhoi ar waith.

Lle y bydd gan blentyn sawl maes o anghenion, mae'n bosibl y caiff achos y plentyn hwnnw ei drafod mewn amrywiol gyfarfodydd â gwahanol bartneriaid yn bresennol, a gall hyn achosi dryswch. Mae angen i'r partneriaid sicrhau bod camau gweithredu a gwaith cynllunio yn gyson ac yn glir.

Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol nad oeddent yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd amddiffyn plant neu eu bod yn cael gwybod yn hwyr amdanynt. Fodd bynnag, llwyddodd yr awdurdod lleol i ddangos yr ymdrechion y mae wedi'u gwneud i sicrhau y caiff gwahoddiadau eu hanfon yn gyson at weithwyr proffesiynol allweddol. Mae'r maes hwn yn gofyn am eglurder a chyfathrebu er mwyn sicrhau y gall pob gweithiwr proffesiynol perthnasol gyfrannu at sgysiau allweddol ynghylch diogelwch plant.

Nodwyd gennym fod angen mwy o waith datblygu er mwyn rhoi'r dull gweithredu ar sail cryfderau a gaiff ei arfer a'i arwain gan yr awdurdod lleol ar waith. Er enghraifft, nid oedd cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cydgynhyrchu fel mater o drefn gyda'r plant a'r teuluoedd. Roedd rhai plant a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan ddiffyg cydgysylltiad rhwng y gwahanol weithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau cymorth niferus a gynigir. Ni welsom dystiolaeth gyson bod cynlluniau diogelwch yn cael eu gweithredu a/neu

eu hadolygu ar y cyd ac nid oedd cynlluniau diogelwch yn cael eu rhannu â'r plant a'r teuluoedd ychwaith.

Dywedwyd wrthym ei bod yn aml yn anodd cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r atgyfeiriadau a wnaed gan yr awdurdod lleol. Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid ystyried adolygu polisïau a gweithdrefnau a'u diwygio er mwyn sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf mewn modd amserol.

Roedd staff y SPOC yn gwerthfawrogi'r cynnig o gyfarfod ymgynghori wythnosol â gweithiwr CAMHS, er bod y cymorth hwn wedi lleihau'n ddiweddar. Mae'r bartneriaeth hon yn helpu gweithwyr SPOC a gweithwyr y Tîm o Amgylch y Teulu i roi ymyriadau ar waith â theuluoedd ac yn creu pont i CAMHS. Dywedodd staff y gwasanaethau plant wrthym am y diffyg adnoddau llesiant emosiynol a'r rhestrau aros, er enghraifft ar gyfer prosiect Blue Yonder Barnardo's. Caiff y sefyllfa hon ei gwaethygu gan y cynnydd mewn galw o ganlyniad i'r pandemig ac mae'n golygu nad yw plant bob amser yn cael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar yr adeg briodol. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ddatblygu a chydgysylltu ei wasanaeth therapi mewnol ei hun ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys tîm therapi mewnol a thîm MAPS. Mae'r ddau dîm yn cynnwys seicolegwyr a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol ac yn gweithio er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a pharhad lleoliadau.

Gwelsom enghreifftiau da o atgyfeiriadau prydlon at wasanaethau CAMHS. Fodd bynnag, dywedodd nifer o feddygon teulu ac eraill yn y bartneriaeth iechyd wrthym fod oedi hir yn aml wrth gael asesiad CAMHS i blant. Mae hyn yn golygu y gallai fod oedi wrth roi ymyriadau amserol ar waith i'r plant er mwyn diwallu eu hanghenion iechyd meddwl.

Ym mhob ysgol, roedd pryder tebyg am restr aros hir i gael gafael ar gymorth gan CAMHS. Mae'r ysgolion wedi gwella eu capasiti mewnol i helpu disgyblion drwy hyfforddiant ychwanegol a thrwy gyflwyno gwahanol fentrau. Fodd bynnag, nid oes digon o ddarpariaeth arbenigol o hyd. Rhaid i BIPBA adolygu ei broses ar gyfer asesiadau CAMHS er mwyn cynnig gofal a chymorth amserol i sicrhau diogelwch plant a lleihau'r risg y ceir argyfwng iechyd meddwl.

Nododd rhai meddygon teulu pe byddai plentyn yn methu apwyntiad CAMHS a drefnwyd fod angen atgyfeiriad arall, gan arwain at oedi pellach. Mae gan BIPBA brotocol penodol ar waith ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion na ddaethpwyd â nhw i apwyntiad lle ceir pryderon diogelu neu lle mae ganddynt anghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn tynnu sylw at y gweithdrefnau i'w dilyn pan gaiff apwyntiad ei fethu. Mae ein hadolygiad wedi nodi materion o ran asesiadau CAMHS a gaiff eu gohirio, a all gynyddu'r risg o niwed i blentyn. Dylai BIPBA ystyried y broses sydd ar waith ar gyfer archwilio achosion o fethu apwyntiadau ac achosion lle y caiff plant eu hatgyfeirio nôl at yr atgyfeiriwr pan na ddaethpwyd â nhw i apwyntiad. Yn ogystal, dylai unrhyw archwiliad ystyried a oedd angen atgyfeiriad arall, a'r effaith y gallai hyn fod wedi'i chael ar y plentyn.

Cafodd Nyrsys Iechyd Ysgolion eu symud i swyddogaethau eraill ar ddechrau'r pandemig, ac mae hynny wedi effeithio ar gynrychiolaeth gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd diogelu statudol. Er enghraifft, ar gyfer un ffeil, nodwyd gennym nad oedd cynrychiolydd o BIPBA yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Er ein bod wedi cael gwybod bod y rhan fwyaf o Nyrsys Iechyd Ysgolion bellach wedi dychwelyd at eu swyddi parhaol, dylai'r bwrdd iechyd ystyried ei strategaeth ar gyfer sicrhau bod

adnoddau staff digonol ar gael i fynychu'r holl gyfarfodydd diogelu statudol perthnasol yn y dyfodol, neu fod mesurau priodol cyson ar waith i liniaru'r absenoldeb, ac y caiff unrhyw ohebiaeth ei dogfennu yn y cofnodion achos yn briodol.

Gwelsom a chawsom wybod am rai enghreifftiau lle na fu'r cyfathrebu rhwng staff iechyd yn effeithiol nac yn amserol. Er enghraifft, pan nad oedd plentyn yn derbyn gofal mwyach, nid oedd y newid hwn mewn amgylchiadau yn cael ei gyfleu i'r meddyg teulu na Nyrs Iechyd yr Ysgol. Cawsom wybod mai gweithiwr cymorth gweinyddol sydd fel arfer yn gyfrifol am y dasg hon, ond am na fu gan y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal unrhyw gymorth gweinyddol ers dros flwyddyn, nid oedd hynny wedi digwydd. Dylai BIPBA wneud yn siwr bod adnoddau digonol ar gael i sicrhau cyfathrebu amserol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.

Ceir pryderon nad yw ysgolion bob amser yn rhannu gwybodaeth bwysig pan fydd disgybl sy'n agored i niwed yn trosglwyddo. Gall hyn fod yn wir pan fydd disgybl yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd o fewn ardal yr awdurdod lleol, ond hefyd pan fydd disgybl yn symud yng nghanol cyfnod o un ysgol i ysgol arall, a hynny o fewn ardal yr awdurdod lleol ac o wahanol awdurdod.

Atal

Cryfderau

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio o fewn ethos sy'n canolbwyntio ar y person sy'n annog cadw plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o fewn eu teulu lle bynnag y bo hynny er budd pennaf o ran eu llesiant a'u diogelwch. Lle na all plant fyw gartref, rhoddir blaenoriaeth i drefniadau ar gyfer cadw cysylltiad â rhieni a brodyr a chwiorydd ac aelodau'r teulu ehangach. Gwelsom dystiolaeth o ddefnydd arloesol, llawn dychymyg o wasanaethau fel Tîm Cymorth Family Action (FAST) yn ogystal â gwasanaethau'r trydydd sector fel Barnardo's a Chyngor Gorllewin Morgannwg ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau (WGCADA) er mwyn cefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y teulu. Mae'r awdurdod lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r farn bod angen ymgysylltu'n barhaus â rhai teuluoedd.

Gwelsom brosesau craffu a sicrhau ansawdd rheolaidd ar waith gan yr asiantaethau. Roedd themâu a thueddiadau a oedd yn achosi pryder, a gwersi unigol a ddysgwyd, yn cael eu nodi a'u bwydo nôl i'r ymarferwyr a'r goruchwylwyr. Gwelsom dystiolaeth o herio effeithiol ym mhob asiantaeth, er enghraifft yn systemau'r heddlu a chofnodion y gwasanaethau plant, a threfniadau cyfathrebu a herio priodol rhwng partneriaid gan arwain at benderfyniadau effeithiol.

Roedd prosesau llywodraethu sefydledig ar waith o fewn unedau rheoli sylfaenol yr heddlu ac ar lefel yr heddlu lle roedd materion a oedd yn ymwneud â phlant sy'n wynebu risg yn cael eu dadansoddi. Yn ogystal, roedd metrigau perfformiad ar gael drwy'r dangosfwrdd gwybodaeth busnes. Roedd prosesau sicrhau samplu ar hap hefyd ar waith ar draws sawl maes plismona er mwyn dadansoddi'r ymateb ansoddol i bryderon ynghylch plant sy'n wynebu risg. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys Uned Amddiffyn y Cyhoedd, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a'r ddalfa. Mae'r trefniadau goruchwyllo a llywodraethu rheolaidd hyn yn cynnig y cyfle i uwch-swyddogion brofi natur ac ansawdd y penderfyniadau a wneir a'r canlyniadau i blant.

Cyn yr arolygiad hwn, ym mis Rhagfyr 2020, cynhaliodd Heddlu De Cymru adolygiad mewnol o'i ymateb i achosion o gamfanteisio ar blant. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o ymchwiliadau ac achosion unigolion coll a chynnal grwpiau ffocws â gweithwyr proffesiynol yn yr heddlu. Gwnaeth yr adolygiad hwn wyth argymhelliad. Yn ystod yr arolygiad, roedd yn bleser gennym weld fod yr argymhellion a wnaed wedi cael eu cwblhau neu fod gwaith yn mynd rhagddo i'w cwblhau. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd tri diwrnod datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer Arolygwyr a Rhingylliaid a bwriedir cynnal tri diwrnod arall o'r fath i dimau cymdogaeth, timau ymateb a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, gan ganolbwyntio ar yr ymateb i blant sy'n wynebu risg o gamfanteisio. Lluniwyd siart llif newydd hefyd er mwyn ei gwneud hi'n haws deall sut y dylid ymdrin ag atgyfeiriadau o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol o safbwynt deallusrwydd, diogelu ac ymchwilio.

Mae gan drefniadau sicrhau ansawdd broffil uchel ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant a theuluoedd, ac mae rheolwyr ac aelodau o'r staff yn cymryd rhan yn y broses hon. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol wrth ledaenu'r gwersi a ddysgwyd i bob rhan o'r gwasanaeth. Disgrifiodd y staff ddiwylliant dysgu ac roeddent yn gadarnhaol ynghylch y cynnydd mewn gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol a'r cyfraniad y gallant ei wneud i brosesau dysgu gan gyfoedion ac ymarfer myfyriol. Mae'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn cynnal archwiliadau rheolaidd sy'n canolbwyntio ar agwedd benodol ar ymarfer. Mae'r archwiliadau diweddar wedi cynnwys merched yn y system a thrais difrifol. Caiff adroddiadau rheolaidd ar ddiogelu eu llunio a'u trafod gan y bwrdd rheoli.

Roedd ethos cyffredin o ymyrryd yn gynnar a chanolbwyntio ar ganlyniadau ym mhob rhan o'r bartneriaeth. Mae darpariaeth ymyriadau cynnar ddatblygedig fuddiol ar gael i blant a theuluoedd, drwy'r SPOC a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid. Roedd y panel ymyriadau cynnar amlasiantaeth yn darparu trefniadau goruchwyllo ychwanegol gan reolwyr ar gyfer trothwyon, her adeiladol a mynediad at wasanaethau ac adnoddau priodol. Nodwyd bod gan rai gwasanaethau ymyriadau cynnar restrau aros gan na fu cymaint o weithgarwch wyneb-yn-wyneb yn ystod y pandemig.

Gwelsom asesiadau ymyriadau cynnar da gan y Tîm o Amgylch y Teulu ac roedd yr asesiadau hynny'n cael eu cydgyhyrchu â'r teuluoedd. Cydnabuwyd cymhlethdod rhai o achosion y Tîm o Amgylch y Teulu, roedd yr arolygwyr yn fodlon bod y staff yn hyderus wrth ymdrin â'u cyfrifoldebau diogelu a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth priodol. Gwelwyd tystiolaeth yn dangos pan fyddai anghenion neu risgiau yn cynyddu, y byddai achosion yn cael eu 'camu i fyny' o'r cam ymyriadau cynnar i'r gwasanaethau cymdeithasol i blant a'u bod hefyd yn cael eu camu i lawr fel y bo'n briodol. Roedd y cyfarfodydd trosglwyddo wythnosol ar gyfer prif swyddogion a rheolwyr o wahanol dimau yn cynnig cyfleoedd ar gyfer goruchwyllo ar y cyd ac ar gyfer trafodaethau proffesiynol am hynt achosion.

Er na nodwyd unrhyw fecanweithiau ffurfiol, cawsom sicrwydd nad oedd achosion teuluoedd a atgyfeiriwyd ar gyfer ymyriadau cynnar nad oeddent wedyn yn ymgysylltu â'r ymyriadau hynny yn cael eu cau'n awtomatig gan y gwasanaeth hyd nes y byddai SPOC wedi adolygu'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod yr ymateb yn briodol o ystyried bod y teuluoedd hynny o bosibl yn agored i niwed. Roeddem o'r farn bod y drefn hon yn cynnig dolen adborth hanfodol er mwyn sicrhau nad yw penderfyniadau trothwy yn gwbl seiliedig ar barodrwydd teulu i gymryd rhan.

Mae gan yr awdurdod lleol boblogaeth gymharol sefydlog o blant sy'n derbyn gofal. Mae gan yr uwch-reolwyr a'r swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil y plant sy'n derbyn gofal, a gwybodaeth dda amdano. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i'r agenda ataliol, ac i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel. Roedd yn amlwg o siarad â'r staff bod anghenion y plentyn yn cael eu cydnabod yn glir a'u derbyn fel y flaenoriaeth mewn perthynas â chynllunio parhad a chynllunio trefniadau wrth gefn.

Cyflwynwyd proses sicrhau ansawdd yn BIPBA ym mis Mehefin 2021 er mwyn sicrhau cysondeb ansawdd yr Asesiadau Iechyd Statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn unol â'r Safonau Cenedlaethol a ddatblygwyd yn 2020.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i amddiffyn plant a osodwyd yn eu hardal gan awdurdodau eraill ac i liniaru'r diffygion a achoswyd gan y diffyg rhybudd priodol gan rai o'r awdurdodau a oedd yn gosod plant. Nodwyd bod y gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol yn SPOC bellach yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd strategaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant ar gyfer y plant hyn.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cynnig cyswllt gwirfoddol fel mesur ataliol a diogelu. Mae'r pwyslais ar wyro achosion o'r system cyfiawnder troseddol a chadw 'drws agored' pan gaiff achosion eu cau er mwyn i'r plant allu cael gafael ar gymorth fel y bo'n ofynnol. Cydnabu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid bwysigrwydd strategaethau gwyrto wrth ddarparu gweithgareddau adeiladol yn seiliedig ar ddi-ddordebau'r plentyn a ffactorau amddiffynol gan gynnwys addysg fel ffactor ymatal. Roedd tystiolaeth o ymwybyddiaeth dda o risgiau a dealltwriaeth gynyddol o batrymau dosbarthiad cyffuriau lleol a sut y camfanteisir ar blant o fewn y rhwydweithiau hyn.

Roedd pwyslais cryf ar geisio cadw'r plant yn yr ysgol lle maent yn ddiogel. Roedd asiantaethau partner gan gynnwys yr heddlu a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'r ysgolion er mwyn ymdrin â phatrymau a oedd yn peri pryder. Roedd un ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn menter beilot gan weithio gydag un o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu gyda'r nos i nodi plant yn y gymuned a oedd yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol.

Mae'r awdurdod lleol wedi helpu ysgolion i ddilyn gweithdrefnau diogelu yn gyflym ac yn effeithiol gan ddefnyddio SPOC. Mewn llawer o achosion, roedd cronoleg o ddigwyddiadau yn yr ysgol wedi'i ddogfennu'n fanwl er mwyn ategu proses y SPOC. Mae holl wybodaeth y SPOC ar gael i'r swyddog diogelu addysg bob amser. Mae hyn yn ei galluogi i roi gwybodaeth a chymorth ychwanegol i'r ysgolion ar ôl cael atgyfeiriad, gan gynnwys a fodlonwyd y trothwy ar gyfer bwrw ati ag asesiad. Yn ôl yr ysgolion, roedd y cymorth hwn yn effeithiol iawn. Roedd ganddynt broses ar waith lle y gallent godi pryderon os nad oeddent yn cytuno â chanlyniad atgyfeiriad a wnaed i SPOC neu'r cyngor a roddwyd. Gellid codi'r pryderon hyn ag uwch-reolwyr ac yn y grŵp diogelu a gynhaliwyd bob pythefnos lle y caiff gwybodaeth hefyd ei rhannu ac y caiff materion sy'n dod i'r amlwg eu hystyried.

Roedd rhybuddion prydlon gan Ymgyrch Encompass yn rhoi hysbysiadau cynnar i'r ysgolion bob dydd am unrhyw bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig ag achos o gam-drin domestig y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdano. Mae'r system rhybuddio cynnar hwn yn effeithiol wrth alluogi'r ysgol i gynllunio'n strategol ar gyfer y person ifanc cyn iddo gyrraedd yr ysgol ar ddechrau'r dydd. Gall ysgolion sicrhau bod y cymorth priodol ar gael a bod y

staff yn ymwybodol a gallant nodi lle y gall fod angen amser ychwanegol ar y person ifanc i drafod ei bryderon. Nododd yr ysgolion fod hyn yn galluogi'r person ifanc i deimlo'n ddiogel yn yr ysgol lle y gall fynd at aelod o staff y mae'n ymddiried ynddo os bydd angen. Roedd yr ysgolion hefyd yn cael hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd bob dydd, gan eu helpu i fod yn rhagweithiol wrth ddarparu'r cymorth angenrheidiol.

O'r hyn a welwyd, roedd yr uwch-arweinwyr yn yr ysgolion yn gweithio'n ddiwyd i osgoi gwahardd disgyblion agored i niwed yn ddiangen gan eu bod yn deall y risgiau cysylltiedig. Mae un ysgol wedi ariannu darpariaeth lwyddiannus oddi ar y safle ar gyfer disgyblion y mae angen eu gwahardd o'u dosbarth er mwyn helpu i osgoi gwaharddiad ffurfiol am gyfnod penodol. Lle bo risg y caiff pobl ifanc eu gwahardd yn barhaol a'i bod yn hysbys eu bod yn wynebu risg o gamfanteisio, roedd angen i'r gweithiwr cymdeithasol, yr ysgol ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall a oedd yn ymdrin â'r person ifanc ystyried pecynnau cymorth er mwyn osgoi'r gwaharddiad. Trafododd rheolwr y Tîm Llesiant gynlluniau'r ysgolion i leihau'r ffigurau gwahardd ag uwch-arweinwyr yr ysgolion. Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant penodol ar waharddiadau a'r effaith ar bobl ifanc wrthi'n cael ei ddatblygu i lywodraethwyr ysgolion a chaiff ei lansio yn ystod tymor yr hydref.

Mae gan bob corff llywodraethu lywodraethwr penodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu. Roedd yr awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant diogelu parhaus rheolaidd i lywodraethwyr fel rhan o'r rhaglen o hyfforddi llywodraethwyr bob tymor. Roedd diogelu yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfod tymhorol y cyrff llywodraethu. Roedd hyn yn cynnwys y brif wybodaeth am nifer yr achosion a gafodd eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, nifer yr ymyriadau corfforol a ddefnyddiwyd, y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd i'r staff ar hyfforddiant diogelu ac unrhyw achosion o fwlio a gwahardd.

Roedd systemau effeithiol ar waith gan y Gwasanaeth Lles Addysg i olrhain presenoldeb disgyblion. Roedd yn gweithio'n rhagweithiol â'r ysgolion i ymdrin â materion presenoldeb fel dangosyddion cynnar o'r disgyblion hynny y mae risg y byddant yn ymddieithrio o addysg. Roedd y gwasanaeth yn gweithio gydag ymarferwyr yr ysgolion i rannu gwybodaeth ac i gyfrannu at gyfarfodydd cynllunio er mwyn targedu cymorth ar gyfer disgyblion unigol a'u teuluoedd lle roedd ffigurau presenoldeb yn peri pryder.

Roedd yr awdurdod lleol yn ymrwymedig iawn i ymyrryd yn gynnar er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc. Roedd mwy o bwyslais ar hyfforddiant a chymorth i staff ysgolion ar effaith camddefnyddio sylweddau a'r problemau iechyd meddwl y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Ym mhob rhan o'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, mae'r staff yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol a chymorth i'r athrawon roi'r rhaglenni hyn ar waith yn yr ysgolion. Roedd cyfeiriadur o adnoddau, seminarau a gwasanaethau lleol yn ymdrin â pherthnasoedd iach ar gael i bob ysgol. Roedd amrywiaeth eang o gymorth a chynghor er mwyn helpu i sicrhau bod y disgyblion yn cael gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau, materion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl a sut i wneud dewisiadau pwysig.

Roedd gwasanaeth RADS yn gweithredu mewn nifer o leoliadau cymunedol, gan gynnwys clybiau ieuencid a cholegau ledled y sir gan ymdrin â'r ystod oedran darged, sef pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed. Mae ymarferwyr ieuencid RADS yn aelodau o staff sydd wedi'u hyfforddi i lefel uchel sy'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc, gan gynnwys perthnasoedd diogel, dulliau atal cenhedlu, beichiogrwydd, erthylu, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, LGBTQ+ a llawer o faterion eraill. Roeddent hefyd yn darparu

dulliau atal cenhedlu rhwystrol, profion beichiogrwydd, cyngor a chymorth er mwyn cael gafael ar wasanaethau iechyd rhywiol eilaidd a gwasanaethau iechyd eraill. Yn ogystal, roedd gwasanaeth RADS yn cynnig cymorth, arweiniad a gweithdai i bob ysgol uwchradd yn yr ardal leol er mwyn cefnogi'r rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

Meysydd i'w Datblygu

Roedd yn amlwg bod yr ymarferwyr a'r rheolwyr yn y gwasanaethau plant yn ymrwymedig i helpu plant a theuluoedd a'u bod yn parchu eu dymuniadau a'u teimladau, gan ddilyn dull ymarfer ar sail cryfderau. Fodd bynnag, nodwyd gennym mewn rhai achosion fod y gweithwyr achos yn rhy obeithiol y byddent yn gallu ymgysylltu â phlant a theuluoedd yr oedd ganddynt hanes o wrthod ymgysylltu. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig iawn ystyried cynlluniau wrth gefn os na fydd camau ymgysylltu yn llwyddiannus. Yn yr un modd, nid oedd y trefniadau cynllunio wrth gefn yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid bob amser yn ddigon cadarn ac weithiau roedd diffyg strwythur iddynt.

Ar gyfer un person ifanc a oedd yn byw mewn cartref plant, prin oedd y dystiolaeth o waith cynllunio amlasiantaeth er mwyn i'r person ifanc symud ymlaen, a oedd ar fin digwydd. Roedd angen mwy o fanylion yn y cynllun gofal a chymorth, nad oedd yr asiantaethau wedi llwyddo i gytuno ar elfennau ohono. Nid oedd unrhyw awgrym ychwaith fod y mater hwn yn cael ei ddatrys.

Er bod y bartneriaeth yn ymrwymedig i ymyrryd yn gynnar, ceir rhai rhestrau aros ac nid oes digon o gyflenwad i fodloni'r galw. O ganlyniad, mae'n bosibl y caiff cyfleoedd i ymdrin â risgiau a'u lliniaru cyn gynted â phosibl eu methu.

Y camau nesaf

Dylai'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu arfaethedig yn ymateb i'r canfyddiadau a amlinellir yn y llythyr hwn. Dylai hyn fod yn ymateb amlasiantaeth yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Heddlu De Cymru. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu ar gyfer y bartneriaeth a, lle y bo'n briodol, asiantaethau unigol.

Dylai pennaeth y gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau plant anfon y datganiad gweithredu ysgrifenedig i AGC.AwdurdodLleol@llyw.cymru erbyn 18 Medi. Bydd y datganiad hwn yn llywio'r llinellau ymholi mewn unrhyw weithgarwch ar y cyd neu weithgarwch asiantaeth unigol yn y dyfodol gan yr arolygiaethau.

Yn gywir,




Gillian Baranski
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru



Alun Jones
Prif Weithredwr Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru



Marc Baker
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi



Meilyr Rowlands
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi
Estyn



Wendy Williams,
Arolygydd Cwnstabiliaeth EM ac Arolygydd Gwasanaethau Tân ac Achub EM